

Cyngor Bwrdeistref Sirol



BRIDGEND COUNTY
BOROUGH COUNCIL

CYNGOR BWRDEISTREF
SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

Gwasanaethau Cymdeithasol

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2024-25



Cynnwys

1.	Crynodeb y Cyfarwyddwr	3
2.	Cyd-destun	14
	• Arweinyddiaeth	17
	• Y Gweithlu	18
	• Adnoddau Ariannol	21
3.	Asesiad Perfformiad	22
	• Pobl	23
	• Atal	40
	• Partneriaeth ac Integreiddio	44
	• Lles	56
4.	Gwybodaeth Arall	64
	• Arolygiadau ac Adolygiadau	64
	• Cwynion a Sylwadau	66
	• Ffynonellau Gwybodaeth Eraill	68
5.	Rhestr Termiau	68

1

CRYNODEB Y CYFARWYDDWR

Dyma fy mhumed adroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Paratoi'r adroddiad hwn yw un o ddyletswyddau pwysicaf Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi effeithiolrwydd y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a lles i'n preswylwyr Mae'n helpu i ddathlu'r hyn sy'n mynd yn dda, cydnabod lle mae angen i ni wella a gosod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Paratowyd yr adroddiad hwn fel gofyniad statudol o dan y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014).

Rhaid i mi ddechrau trwy ddiolch i'n gweithlu gwasanaethau cymdeithasol a lles – yn y Cyngor a gwasanaethau comisiynu – sydd wedi mynd y filltir ychwanegol i wneud bywyd yn well i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed. Rwy'n falch o'r ffordd maen nhw wedi cefnogi pobl gyda thosturi, medr a phroffesiynoldeb. Maen nhw'n canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd a chymryd amser i wrando a deall beth sy'n bwysig i blant, teuluoedd, oedolion a gofaluwr. Mae'n ffrind i ni i gyd weithio gydag unigolion a'u teuluoedd ar rai o adegau mwyaf heriol eu bywydau.

Mae gennym bwrpas clir ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a lles ym Mhen-y-bont ar Ogwr:

"Rydym yn bodoli i arfer ein dyletswyddau cyfreithiol a moesol i helpu'r rhai sydd angen gofal a chymorth ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gael y bywyd gorau posibl. Mae gennym gynlluniau a blaenoriaethau strategol clir ar gyfer plant a theuluoedd a gofal cymdeithasol a lles oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr."

Mae'r amgylchedd rydyn ni'n gweithio ynddo yn heriol gyda nifer uchel a chynyddol o gysylltiadau â gwasanaethau plant a theuluoedd a gofal cymdeithasol i oedolion. Mae ein poblogaeth yn tyfu ac yn heneiddio. Mae tlodi, oedran, anabledd, salwch, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau yn cael effaith fawr ar unigolion a chymunedau. Mae plant a phobl ifanc yn wynebu heriau nad oedd cenedlaethau blaenorol yn gorfod delio â nhw, gan gynnwys twf mewn seiberdroseddu sy'n gysylltiedig â diogelu.

Yn ogystal ag anghenion sy'n newid, mae deddfwriaeth flaengar newydd i gael gwared ar elw o ofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Mae sefyllfa ariannol llywodraeth leol yn parhau i fod yn heriol. Mae cyfran y cyllidebau awdurdodau lleol sy'n cael eu gwario ar wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru wedi cynyddu, gan leihau'r gyfran sydd ar gael i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol a lles sy'n lleihau'r angen am ofal a chymorth hirdymor.

Er gwaethaf yr heriau, mae'r adroddiad hwn yn optimistaidd. Trwy gynllunio gweithlu llwyddiannus, cynllunio dilyniant a chanolbwyntio ar les, addysg a datblygiad y gweithlu, mae gennym a weithlu uchel ei gymhelliant sy'n cael ei gefnogi'n dda. Rydym wedi lleihau ein dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth sy'n rhoi mwy o barhad i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi. Mae gennym fodelau ymarfer cryf ac effeithiol ac rydym yn lleihau amrywioldeb mewn safonau. Mae gennym ystod o wasanaethau o ansawdd da sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac mae gennym gynlluniau i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau. Mae gennym fesurau ymyrraeth ac atal cynnar effeithiol ar waith a'n nod yw cefnogi mwy o bobl yn gynt ac osgoi anghenion pobl rhag gwaethgu. Mae gennym berthnasoedd cadarn ac effeithiol â phartneriaid, y byddwn yn parhau i'w meithrin a buddsoddi amser ynddynt. Mae'r perthnasoedd hyn wedi bod yn hanfodol yn ein taith wella dros y 3 blynedd diwethaf. Byddant yn ganolog i'n trawsnewidiad parhaus – wrth i ni geisio symud ein hasesiad cyffredinol o effeithiolrwydd o dda i ragorol.



Gwasanaethau Plant a Theulu

Cyhoeddwyd ein cynllun strategol 3 blynedd ar gyfer plant a theuluoedd, sef 'Ffocws ar y Teulu', ym mis Medi 2023, ac mae'n canolbwyntio ar:

- Lais y plentyn a'r teulu
- Ein gweithlu
- Ein hymarfer
- Effaith ein gwasanaethau a'n hymyriadau
- Ein hymateb i deuluoedd ag anghenion cymhleth
- Ein gwaith gyda phartneriaid
- Ein systemau gwybodaeth

Yn 2024-25 rydym wedi sefydlogi ein gweithlu, wedi ymgorffori ein model ymarfer arwyddion diogelwch ac wedi integreiddio gwasanaethau atal ac ymyl gofal. Mae hyn wedi ein helpu i gael effaith gadarnhaol ar blant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol a pharhaus yn 2024-25. Rydym wedi symud ymlaen yn gyflym o awdurdod lleol lle roedd gan ein rheoleiddiwr, Arolygiaeth Gofal Cymru, 'bryderon difrifol' yn 2022. Fe wnaethom ddatblygu 'dull Cyngor cyfan' o wneud y gwelliannau angenrheidiol, cymryd camau beiddgar ar sail dealltwriaeth gref o'r data lleol, a dadansoddi tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Ein camau gwella allweddol oedd:

- Datblygu achos busnes clir a chynllun strategol, gyda chymorth buddsoddiad, i gryfhau'r gweithlu plant a'r gwasanaethau cymorth cynnar ym mis Medi 2023, gyda chefnogaeth unfrydol ar draws y Cyngor.
- Llywodraethu cryf ac effeithiol gan gynnwys bwrdd gwella trawsbleidiol dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor.

- Ffocws ar y gweithlu – arloesedd wrth sicrhau gweithlu parhaol yn y tymor byr trwy recriwtio rhyngwladol a buddsoddi cynaliadwy yn y rhaglen 'tyfu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain' o gynllunio olyniaeth fewnol ac ymrwymiad i arweinyddiaeth dosturiol, lles y gweithlu a dysgu a datblygu parhaus ac ymarfer hyn.
- Model ymarfer clir ynghyd â llwythi achosion gwaith cymdeithasol isel sy'n galluogi'r gweithlu i feithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd, gan adeiladu ar gryfderau, wrth weithredu'n gyflym i fynd i'r afael â pherygl.
- Integreiddio gwasanaethau cymorth cynnar ac ymyl gofal fel bod plant a theuluoedd yn cael mynediad i'r cymorth cywir gan y person cywir ar yr adeg gywir.
- Gweithio mewn partneriaeth effeithiol ar sail pwrpas clir, her broffesiynol briodol a chymorth gref i'r ddwy ochr.
- Data a gwybodaeth cryf, sicrwydd ansawdd a chefnogaeth partner gwella annibynnol.

Bu gwiriad gwella ym mis Mehefin 2025 yn ystyried effeithiolrwydd gwasanaethau plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan gynnwys cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn canfod bod:

“Arweinwyr BCBC wedi blaenoriaethu gwasanaethau plant yn gyson, i gefnogi gwelliannau parhaus ac amserol. Mae hyn wedi cryfhau ansawdd a chyflenwi swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol. Mae'r awdurdod lleol wedi symud o fod â gweithlu bregus a diffygion critigol o ran capasiti, i sefyllfa gyffredinol o sefydlogrwydd. Dyma'r newid mwyaf arwyddocaol a wnaed ers 2022-23, sy'n sail i allu'r awdurdod lleol i yrru ymlaen a chynnal gwelliannau. Mae'r gwelliant cadarnhaol hwn wedi'i gyflawni trwy ffocws parhaus ar les y gweithlu ac ansawdd ymarfer.”

O ran effaith, rydym wedi lleihau nifer a chyfran y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth ac sydd angen ymyriadau diogelu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rydym wedi helpu mwy o deuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fyw'n dda gyda'i gilydd a magu eu plant i fod yn wydn a byw'r bywydau y maent am eu byw fel oedolion. Mae angen i ni wneud mwy o hyd i ganolbwyntio cyfran uwch o'n hadnoddau ar gymorth ataliol cost-effeithiol i deuluoedd ag anghenion cymhleth yn hytrach na phrofiadau gofal amgen drud. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod mwy o deuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir a lleihau nifer o weithiau y mae'n rhaid i ni ymyrryd mewn argyfwng

Mae'n bwysig cydnabod y cynnydd a wnaed a dathlu'r gweithlu sydd wedi gwella canlyniadau i blant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae hefyd yn bwysig osgoi hunanfodlonrwydd am y meysydd lle mae angen i ni wella o hyd a'r oruchwyliaeth a'r craffu sydd eu hangen i fod yn sicr ynghylch ansawdd yr ymarfer. Bydd y ffocws yn y flwyddyn nesaf yn cynnwys meysydd a nodwyd gan AGC fel rhai y mae angen gwella pellach arnynt, yn ogystal â meysydd yr ydym wedi'u nodi ein hunain.

Mae angen i ni:

- Wella digonolrwydd gofalwyr maeth a darpariaeth breswyl ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer ein plant mwyaf agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys agor 2 gartref preswyl arall i blant.
- Parhau i wella gwasanaeth maethu Pen-y-bont ar Ogwr, gan wella sut rydym yn recriwtio, cefnogi a chadw gofalwyr maeth, paru plant i'r teulu maeth cywir a gwella mynediad i ddysgu a datblygiad ar gyfer gofalwyr maeth.
- Lleihau'r amrywiad yn ein hymarfer a chofnodi ein gwaith yn gyson i safon uchel.
- Cryfhau sicrwydd ansawdd a sicrhau bod mwy o blant yn cymryd rhan weithredol yn eu cynlluniau gofal a'u hadolygiadau eu hunain.
- Mynd i'r afael â bylchau yn ein gwasanaethau ataliol, yn enwedig i ddiwallu anghenion pobl ifanc y mae risg uwch y gallent fynd i'r system ofal.
- Parhau i wella arferion a chanlyniadau ymhlith ein plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'n tîm maethu, wrth iddynt elwa o sefydlogrwydd gweithlu a chysondeb rheolaeth ac arweinyddiaeth yn fwy diweddar.
- Gweithio gyda phartneriaid i wella trefniadau dyletswydd brys y tu allan i oriau, dealltwriaeth o'n model ymarfer, yr ymateb i bryderon proffesiynol, a diogelu plant rhag camfanteisio.



Oedolion Gofal Cymdeithasol

Cyhoeddwyd ein cynllun strategol 3 blynedd ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, sef 'Adeiladu ar Gryfderau, Gwella Bywydau', ym mis Tachwedd 2024 ac mae'n canolbwyntio ar:

- Fodel Gweithredu
- Model Ymarfer ar Sail Cryfderau sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau
- Trawsnewid Gwasanaethau
- Anableddau Dysgu
- Iechyd Meddwl Cymunedol
- Cyflyrau Gydol Oes neu Anghenion Gofal Cymhleth
- Cefnogi Blaenoriaethau gan gynnwys y gweithlu, dysgu a datblygu a TGCh

Mae'r cynllun strategol yn adeiladu ar ein cryfderau – mae gennym dimau sefydledig ac integredig sy'n uchel eu perfformiad gydag ystod o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion 'Mrs Jones' mewn ffordd sy'n ddi-dor i'r unigolyn a'r teuluoedd.

Rydym yn gweithio'n arbennig o effeithiol i unigolion a theuluoedd sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor ac eiddilwch sy'n gysylltiedig ag oedran. Ein ffocws yw gwneud y mwyaf o annibyniaeth a lleihau dibyniaeth. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi'r ail gyfradd isaf o bobl yng Nghymru mewn llety cartrefi gofal hirdymor.

Ar y cyfan, mae ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr hefyd o safon uchel. Yn 2024-25 cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru chwe arolygiad rheoleiddiol o gartrefi gofal cofrestredig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac arolygiad o wasanaeth gofal a chymorth gartref y Cyngor. Yn gyffredinol, roedd yr arolygiadau'n dangos bod staff wedi'u hyfforddi'n uchel ac yn canolbwyntio ar y person wrth ymarfer

ac bod unigolion a theuluoedd yn gallu teimlo'n hyderus iawn am ansawdd y gofal a ddarperir.

Bu ffocws yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ailfodelu gofal a chymorth gartref. Mae mwy o bobl wedi cadw neu adennill sgiliau ar ôl cyfnod o salwch a chyn derbyn pecyn hirdymor o ofal cartref yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r mwyafrif o bobl sy'n derbyn cymorth ailalluogi yn cael canlyniad cadarnhaol ac mae eu hangen am ofal hirdymor yn cael ei leihau neu ei liniaru'n llwyr. Mae llai o bobl wedi cael oedi yn eu llwybr gofal ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

Mae diogelu oedolion hefyd yn faes cryfder. Rydym wedi cryfhau ymarfer ac wedi sicrhau bod pobl yn cael yr ymateb cywir gan y person cywir ar yr adeg gywir. Mae'r tîm wedi gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i oruchwylio gwelliannau yn y ffordd y mae pobl yn yr ystâd ddiogel ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael eu diogelu. Mae hyn yn faes gwaith cymhleth ac mae arweinyddiaeth tîm y Cyngor wedi cael ei ganmol gan bartneriaid. Mae dull arloesol hefyd wedi cael ei ddefnyddio gyda phartneriaid o atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae llinell ymgynghori wedi'i chyflwyno sy'n sicrhau bod gan atgyfeirwyr fynediad amserol i wybodaeth, cyngor a chymorth ac rydym hefyd wedi gwella'r ffordd yr



ydym yn rheoli trefniadau diogelu rhag colli rhyddid.

Rydym yn gwybod am rai meysydd gwasanaethau i oedolion lle mae angen gwelliannau pellach. Mae ein tîm anabledd dysgu cymunedol wedi profi nifer o heriau'r gweithlu ac nid ydym eto wedi ymgorffori dull dilyniant sy'n adeiladu ar gryfderau pobl i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth. Mae ein gwasanaethau gwaith cymdeithasol tymor byr – ein Hyb Atal ac Ymyrryd yn Gynnar a'n Tîm Gwaith Cymdeithasol Ysbyty hefyd wedi cael anawsterau o ran sicrhau digon o gapasiti i ddiwallu'r lefelau anghenion maen nhw'n eu gweld. Rydym yn gweithio trwy welliannau â ffocws yn y meysydd hyn ac yn gweithredu cynlluniau i gryfhau'r gweithlu ac ymarfer.

Ein blaenoriaethau ar gyfer gwella yn 2025-26 yw:

- Sicrhau mai dim ond lle mae hyn yn angenrheidiol yn feddygol y caiff pobl eu derbyn i'r ysbyty abod pobl yn symud yn rhwydd i'w lleoliad gofal nesaf ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty – gan weithio gyda Bwrdd

Iechyd Cwm Taf Morgannwg.

- Parhau i drawsnewid y ffordd rydym yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu.
- Gwella'r trefniadau ar gyfer cefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod pontio o blentyndod i fod yn oedolion.
- Sicrhau bod digon o lety, gofal a gwasanaethau cymorth i ddiwallu anghenion ein holl grwpiau poblogaeth mewn ffordd sy'n cefnogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl cyn hired â phosibl. Byddwn yn ailgomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn y cartref, yn datblygu achos busnes gyda phartneriaid ar gyfer gofal ychwanegol a darpariaeth byw â chymorth ac yn ehangu darpariaeth bywydau a rennir.
- Gwella'r ffordd yr ydym yn deall anghenion gofalwyr anffurfiol ac yn eu cefnogi.

Cymorth Cynnar, Atal a Lles

Yn 2024-25 fe wnaethom integreiddio gwasanaethau cymorth cynnar ac ymyl gofal i'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Mae'r galw a'r atgyfeiriadau am gymorth cynnar wedi bod yn cynyddu'n sylweddol. Rydym wedi cryfhau'r cynnig cymorth cynnar a gwell canlyniadau i deuluoedd. Mae trefniadau drws ffrynt newydd wedi ein helpu i adnabod risg yn gynnar, gan alluogi timau i ymyrryd cyn i anghenion waethygu. Mae nodi'r pethau hyn yn gynt wedi galluogi timau i ymgymryd â gwaith ataliol yn hytrach nag ymateb i argyfyngau. Bu gostyngiad o 67% yn nifer y teuluoedd oedd yn symud i wasanaethau statudol, sy'n tynnu sylw at effeithiolrwydd y gwaith cynnar ac

ataliol hwn. Mae mesurau effaith wedi dangos bod 96% o deuluoedd yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy abl i wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw ac i'w hymddygiad, a 94% o deuluoedd yn adrodd gwell gwydnwch teuluol.

Mae'r cynnig atal a lles ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi parhau i arwain y sector wrth gefnogi dinasyddion mwyaf agored i niwed y fwrdeistref sirol i fod yn iach ac yn gysylltiedig yn 2024-25. Rydym yn deall bod pobl yn arbenigwyr o ran eu bywydau eu hunain ac rydym yn ymrwymedig i gydgyhyrchu atebion gyda phobl a grwpiau. Mae yna rai enghreifftiau ardderchog megis Grŵp Rhwydwaith Cynhwysol Pen-y-bont ar Ogwr (BING) sy'n darparu cymorth a hyfforddiant ac sydd, dros amser,



wedi dod yn gynaliadwy a'n cenhadon gofalmwr ifanc sy'n cefnogi eu cyfoedion yn ein rhwydwaith gofalmwr ifanc i gael mynediad i gymorth a dylunio gweithgareddau lles.

Mae enghreifftiau o arferion cadarnhaol yn gweithio gyda phobl o bob oed yn y fwrdeistref sirol gan gynnwys:

- Cysylltwyr cymunedol lleol a llyw-wyr cymunedol sy'n gweithio gyda phobl ledled y fwrdeistref sirol i'w cefnogi i greu cysylltiadau ystyrlon a byw'n dda yn eu cymunedau eu hunain, gan ddatblygu gweithgareddau cymunedol newydd megis sgiliau byw yn y gwyllt lle nad yw'r rhain yn bodoli ar hyn o bryd. Mae cysylltwyr cymunedol yn cefnogi unigolion sydd ar fin bod ag angen gwasanaethau statudol; mae llyw-wyr cymunedol yn gweithio gydag ystod ehangach o bobl.
- Fe wnaeth y gwasanaeth lles gofalmwr gyfeirio 4650 o ofalmwr at wasanaethau priodol yn 2024-25.
- Y rhwydweithiau gofalmwr ifanc sy'n ymgysylltu â dros 146 o ofalmwr ifanc mewn diwrnodau 'rydym yn cael ein gwerthfawrogi' ac wedi cefnogi dros 549 drwy'r cerdyn gofalmwr ifanc.

- Ein hyb ieuencid newydd sy'n cwrdd ddwywaith yr wythnos yng Nghanolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr ac yn darparu cyfleoedd cymdeithasol i blant ac oedolion ifanc ag anghenion ychwanegol
- Hyfforddiant a chymorth achrededig i bobl â gwaith ystyrlon yng nghyflogaeth â chymorth Wood-B a B-Leaf Awen.
- Ein partneriaeth byw'n iach ag ymddiriedolaeth hamdden Halo sydd wedi derbyn y lefel uchaf o achrediad diwydiant ac sydd wedi cefnogi nofio addas i'r rhai ag awtistiaeth a'r rhaglen Teimlo'n Dda am Fwyd ar gyfer y rhai sy'n byw gyda dementia, pobl sy'n unig ac yn ynysig ynghyd â'u gofalmwr.
- Ein partner ymddiriedolaeth ddiwylliannol Awen sy'n darparu ystod o wasanaethau llyfrgell, diwylliannol a lles i gefnogi pobl i fod yn iach ac yn gysylltiedig â'u cymuned.
- Ein rhaglen pobl ifanc actif sy'n annog plant o wahanol oedrannau i gymryd rhan mewn chwaraeon, gemau, celfyddydau a gweithgareddau creadigol.
- Ein rhaglen enghreifftiol Bevan 'Super Agers' sy'n ein cadw'n heini, yn actif ac yn gymdeithasol gysylltiedig wrth i ni dyfu'n hŷn.

Y Gweithlu

Mae ein gweithlu wedi bod yn rhan o raglenni newid sylweddol, gan fabwysiadu ein modelau ymarfer gwaith cymdeithasol mewn gwasanaethau cymdeithasol a lles.

Mae gennym fwrdd gweithlu strategol ers 3 blynedd sydd wedi canolbwyntio ar gadw a recriwtio, cynllunio'r gweithlu, dysgu a datblygu, lles a diwylliant y gweithlu. Roedd ein harolwg staff ein hunain yn tystio i hyn fel yr oedd arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru o'r gweithlu gwasanaethau plant a ganfu y byddai 86% o staff yn argymhell gweithio i ni yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

Rydym wedi cyflawni gostyngiad sylweddol o ran gweithwyr cymdeithasol asiantaethau, wedi lleihau trosiant staff, wedi gwella recriwtio ac wedi dangos tystiolaeth o gynllunio effeithiol ar gyfer olyniaeth. Nid ydym yn hunanfodlon – rydym yn deall nad yw cyfran o'n gweithlu yn brofiadol iawn eto ac rydym wedi ymrwymo i'w cefnogi a'u meithrin. Mae rhai cydweithwyr ac uwch arweinwyr profiadol iawn ar fin ymddeol ac mae angen i arweinwyr gynllunio ar gyfer unrhyw newid a'i reoli mewn modd gofalus i liniaru'r risg o ansefydlogi staff. Mae ein gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchaf.



Perfformiad Ariannol, Risgiau a Materion

Mae costau gofal cymdeithasol yn cynyddu oherwydd dyletswyddau cyfreithiol newydd, poblogaeth sy'n tyfu, grŵp demograffig sy'n heneiddio ac anghenion mwy cymhleth ymhlith oedolion iau a phlant a theuluoedd a chostau cynyddol o ran darparu gofal. Mae effaith cyfnodau clo Covid ar y rhai mwyaf agored i niwed yn dal i gael ei hasesu.

Sefyllfa alldro'r gyllideb ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant yn 2024-25 oedd gorwariant o £1.009 miliwn yn erbyn cyllideb net o £102.916 miliwn. Mae hyn yn golygu bod y gyfarwyddiaeth o fewn 0.98% i'r gyllideb a bennwyd. Ond heb gyllid grant untro byddem wedi gorwario £2.986 miliwn. Gan fod cymaint o'n cyllideb (dros 10%) wedi'i wneud o grantiau penodol, byddai risg uchel i wasanaethau ac o ran cyllid pe bai'r grantiau hyn, sy'n ariannu gwasanaethau craidd i raddau helaeth, yn cael eu tynnu'n ôl neu eu lleihau.

Gofal cymdeithasol yw'r ail faes gwariant mwyaf y Cyngor ar ôl addysg. Mae cyllideb y gwasanaethau cymdeithasol a lles yn ffurfio 30.25% o gyllideb refeniw net gyffredinol y Cyngor, sef £115.909m. Mae cyllideb y Cyngor ar gyfer 2025-26 wedi ymgorffori cyllid ychwanegol yn dilyn cynllunio manwl rhwng y tîm cyllid a gwasanaethau cymdeithasol a chydweithwyr lles. Roedd hyn i adlewyrchu costau'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal, costau plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a gwasanaethau i oedolion hŷn, anabledau dysgu ac iechyd meddwl.

Mae dros 75% o'r gofal yn cael ei roi gan ddarparwyr y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i drefniadau comisiynu gyda nhw. Yn gyfreithiol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddeall cost gofal ac adlewyrchu hyn yn ei drefniadau comisiynu. Mae effaith y cyflog byw gwirioneddol, cynnydd mewn yswiriant gwladol cyflogwyr a ffactorau chwyddiant eraill yn arwain at gynydd yng nghostau gofal.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol hefyd i sicrhau bod digon o ofal a chymorth i ddiwallu anghenion y boblogaeth – mae meysydd fel maethu a gofal preswyl i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a gofal preswyl arbenigol i oedolion lle nad oes digon o gapasiti yn profi pwysau cost sylweddol. Mae ffioedd atodol yn cael eu codi fwyfwy gan ddarparwyr cartrefi preswyl a nyrsio i oedolion yn ychwanegol at y ffi safonol a delir gan yr awdurdod lleol neu deuluoedd. Mae'r rhain wedi codi ac yn achosi straen ar gyllidebau teuluoedd ac awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaethau comisiynu y mae'n eu gweithredu i liniaru'r risgiau hyn gan gynnwys datblygu mwy o gartrefi plant mewnol, ffocws cryf ar gadw a recriwtio gofawyr maeth a chynlluniau i ddatblygu mwy o ofal ychwanegol a darpariaeth byw â chymorth i oedolion. Dylid nodi bod pwysau sylweddol ar gyfalaf yn ogystal â chyllidebau refeniw ac mae'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yn dibynnu i raddau helaeth ar grantiau cyfalaf rhanbarthol i ddatblygu ein blaenoriaethau cyfalaf.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i *'gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, fel aelod o'r tîm rheoli corfforaethol, ystyried goblygiadau adnoddau cyffredinol, gan gynnwys materion cyllidebol. Mae gan Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb i sicrhau bod cynghorwyr yn cael cyngor clir ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen ar awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol'*. Yng ngoleuni dadansoddiad cadarn a chynghor proffesiynol, mae'r Cyngor wedi cefnogi pwysau mewn Gwasanaethau Cymdeithasol cyn belled ag y mae wedi gallu yn y cyllidebau diweddar, gan gynnwys buddsoddiad o £2 filiwn yn y gweithlu Plant yn 2024-25 a £8.8 miliwn yng nghyllideb 2025-26 gan gynnwys buddsoddiad o £3.25 miliwn o fuddsoddiadau mewn plant sydd â phrofiad o ofal a dros £2 filiwn i adlewyrchu effaith y cynnydd yn y cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal.



Mae pwysau ariannol sylweddol parhaus i'r Cyngor fod yn ymwybodol ohonynt mewn strategaethau ariannol tymor canolig yn y dyfodol:

- Effaith y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) (2025) a fydd yn cael gwared ar wneud elw o ofal cymdeithasol plant erbyn 2030. Rydym yn gwybod y bydd y costau trosiannol a pharhaus yn sylweddol fwy na'r cyllid grant a roddwyd i ni. Mae hyn yn amlwg yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru. Er mwyn lliniaru hyn, byddwn yn parhau i leihau nifer cyffredinol y plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal mewn modd diogel ac yn datblygu mwy o ddarpariaeth fewnol sy'n cyflawni canlyniadau gwell ac sy'n fwy cost-effeithiol.
- Effaith demograffeg ar yr angen am ofal cymdeithasol – byddwn yn parhau i lliniaru anghenion gofal a chymorth trwy wasanaethau atal ac ailalluogi wedi'u targedu ond ni ellir atal pob angen am ofal a chymorth. Mae angen i ni barhau â'n rhaglen drawsnewid ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ar lefel polisi cenedlaethol, mae angen datrysiaid ariannu ar gyfer ariannu gwasanaethau cymdeithasol, nad yw'n peryglu cyllidebau cyffredinol awdurdodau lleol nac yn arwain at leihau gwasanaethau eraill sydd ynddynt eu hunain yn hanfodol i atal yr angen am ofal a chymorth.

Mae nifer o risgiau a materion eraill yn cael eu rheoli a'u lliniaru mewn gwasanaethau cymdeithasol a lles sy'n cael eu hadlewyrchu mewn cofrestrau risg corfforaethol a chyfarwyddiaethau. Y rhai mwyaf arwyddocaol yw:

Digonolrwydd Lleoliadau Plant

Derbyniodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) (2025) gydsyniad brenhinol ar 24 Mawrth 2025. Ffocws y ddeddfwriaeth yw peidio â gwneud elw o ofal cymdeithasol plant yng Nghymru sydd wedi creu rhywfaint o ansefydlogrwydd ychwanegol yn y farchnad gofal cymdeithasol plant yn ystod y cyfnod pontio, gyda nifer o ddarparwyr preswyl yn dewis tynnu'n ôl tra nad yw eraill wedi datgelu eu bwriadau tymor hwy eto.

Nid oes digon o deuluoedd gofal maeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae poblogaeth y gofalwyr maeth yn heneiddio. Mae nifer y gofalwyr maeth newydd rydyn ni'n eu recriwtio yn llai na'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth. Mae nifer bach o blant yn byw mewn gofal preswyl y gellid eu cefnogi mewn gofal maeth. Yn 2024-25, roedd nifer bach o blant ar unrhyw adeg benodol yn byw mewn lleoliadau sy'n "gweithredu heb gofrestrriad". Mae hyn yn risg sylweddol gan fod mesurau diogelu darpariaeth

Mae goblygiadau ariannol lleoliadau cost uchel, y rhai sydd wedi'u cofrestru a'r rhai sy'n gweithredu heb gofrestrriad, yn uchel iawn.

Er mwyn rheoli'r risg hon, mae ffocws o'r newydd ar ein strategaeth i leihau nifer y plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal mewn modd diogel. Rydym yn ehangu ein gwasanaethau gofal sy'n cadw plant yn byw gyda'u teulu'n ddiogel. Mae strategaeth gomisiynu lleoliadau manwl wedi'i datblygu sy'n nodi'r gwasanaethau y mae angen eu datblygu i reoli'r broses o symud i system gofal cymdeithasol plant dielw dros y 5 mlynedd nesaf. Mae prosiect ailfodelu maethu yn gwella'r cynnig a'r cymorth i ofalwyr maeth Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Cyngor yn datblygu darpariaeth fewnol ychwanegol ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r cyllid grant 'cael gwared ar elw' tymor byr i gefnogi effaith y ddeddfwriaeth newydd yn cefnogi'r cam trawsnewid hwn ond ar hyn o bryd mae disgwyl i hyn ddod i ben ym mis Mawrth 2028 a allai greu bwlch refeniw. Mae rhagor o waith modelu gwasanaethau a modelu ariannol yn cael ei gynnal.

Lefelau Cysylltiadau â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Mae nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau plant a theuluoedd wedi parhau i gynyddu. Heddlu De Cymru sy'n atgyfeirio fwyaf. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gyda phartneriaid allweddol.

Mae'r angen am wasanaethau oedolion hefyd yn parhau i dyfu wrth i'r boblogaeth gynyddu, a heneiddio. Mae Hyb Atal ac Ymyrryd yn Gynnar newydd wedi bod ar waith ers mis Chwefror 2025 sy'n sianelu asesiadau trwy ddrws ffrynt gwasanaethau oedolion newydd, gan ganolbwyntio ar gyfeirio a rhoi cyngor gyda llai o gynlluniau gofal

a chymorth parhaus. Mae lefel y cysylltiadau â'r gwasanaeth hwn hefyd wedi cynyddu ac mae angen i ni sicrhau bod capasiti'r gwasanaeth bob amser yn bodloni lefel y galw.

Bu cynnydd sylweddol mewn lefelau gofal a chostau gofal i bobl ag anableddau dysgu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd pwysau yn y timau gwaith cymdeithasol oherwydd bod gwaith diogelu llys gwarchod a gweithlu asiantaethau wedi cynyddu. Mae rhaglen drawsnewid a chymorthfeydd canlyniadau wedi'u sefydlu i wella ymarfer a chomisiynu.

Cyflwyno System Ddigidol Newydd

Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o heriau a risgiau mewn perthynas â system newydd ar gyfer ei system TG diogelu a rheoli achosion presennol.

Mae system newydd wedi'i chaffael ond mae cryn dipyn o waith i'w wneud i symud o'r system SWGCC bresennol i'r system Mosaic newydd. Mae hyn yn destun pryder sylweddol a fydd yn cael ei fonitro'n agos trwy ein cofrestr risg gorfforaethol trwy gydol 2025-26.

Pressures on Partner agencies

Mae pwysau gwasanaeth ac ariannol yn effeithio ar bob rhan o wasanaethau cyhoeddus ac mae llawer o sefydliadau yn gwneud newidiadau mawr i ganolbwyntio ar eu busnes craidd.

Mae perygl y gallai hyn olygu mwy o ddisgwyliad ar wasanaethau'r Cyngor a bylchau yn y cymorth sydd ar gael i bobl o asiantaethau eraill. Mae angen

i ni weithio trwy newidiadau gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl yn parhau i gael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnynt, wrth fod yn glir beth yw cyfrifoldebau'r awdurdod lleol a'r disgwyliadau ar bartneriaid eraill i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae hyn yn gweithio orau lle mae trefniadau gwasanaeth integredig fel y MASH a'r timau cymunedol oedolion integredig.



Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26

Cefnogi lles, cadw a recriwtio'r gweithlu i barhau i gyflawni gweithlu medrus uchel ei gymhelliant sy'n cael ei gefnogi'n dda.

Ymgorffori ein modelau ymarfer a defnyddio ein rhaglenni sicrhau ansawdd a dysgu a datblygu i fynd i'r afael ag amrywiaeth mewn ansawdd.

Gwella ein gwasanaethau atal, ymyrryd yn gynnar ac ymyl gofal i gefnogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol ac yn iach ac i blant fyw'n ddiogel gyda'u teuluoedd eu hunain.

Ymgorffori ein modelau gweithredu mewn gwasanaethau oedolion, plant a theuluoedd ac atal a lles y mae cymorth ac atal cynnar wrth eu gwraidd.

Clywed a gweithredu ar lais y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

Mynd i'r afael â diffygion yn ddigonolrwydd gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau preswyl a maethu dielw plant a byw â chymorth, bywydau a rennir a gofal ychwanegol i oedolion.

Deall anghenion a rhagamcanion presennol a rhai'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau lles, gan gynnwys effaith deddfwriaeth a demograffeg newydd, i alinio cynlluniau gwasanaethau ac ariannol sy'n golygu ein bod yn y sefyllfa orau bosibl i gyflawni gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy am gost fforddiadwy i'r Cyngor.

Buddsoddi mewn partneriaethau â gwasanaethau cyhoeddus eraill, y trydydd sector a grwpiau cymunedol i wella canlyniadau i unigolion a theuluoedd yn y ffordd fwyaf effeithiol a chost-effeithiol.

Gweithredu system ddigidol newydd a fydd yn moderneiddio'r ffordd y mae ein gweithlu yn ymarfer, tra byddwn yn eu cefnogi i baratoi i ofal cymdeithasol fod yn flaenllaw yn strategaeth ddigidol y Cyngor.

Edrych tua'r Dyfodol – Gwella'n Gynaliadwy ar Adeg Heriol i Wasanaethau Cyhoeddus

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi adolygiad o'r flwyddyn ddiwethaf, y cynnydd yr ydym wedi'i wneud, y risgiau a'r problemau rydyn ni'n eu hwynebu a'r meysydd lle byddwn yn parhau i wella.

Er gwaethaf lefelau heriol o alw, mae ein perfformiad yn dda ac yn cymharu'n dda ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae ein gweithlu yn sefydlog, uchel ei gymhelliant ac yn ymroddedig i'r Cyngor. Mae gennym dîm rheoli ac arwain cryf, uchel ei gymhelliant. Rydym yn gweithio'n dda gydag asiantaethau partner. Mae ein hadolygiadau'n dangos gwelliannau yn ansawdd ein hymarfer – ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr arolygiadau a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Ond bydd yna bob amser feysydd sydd angen eu gwella ac rydym wedi canolbwyntio ar gamau gweithredu i gyflawni hyn. Mae'r risgiau a nodir yn yr adroddiad hwn yn sylweddol. Mae newid y system ddigidol yn y flwyddyn nesaf yn cyflwyno risg hynod sylweddol. Mae ein gweithlu, ein rheolwyr a'n harweinwyr rheng flaen i gyd yn dibynnu ar system effeithiol i ymgymryd â'u gwaith a chadw pobl yn ddiogel. Mae'r risgiau ariannol i'r Cyngor yn parhau i fod yn heriol. Mae angen i ni barhau gyda dull cymunedol cyfan Pen-y-bont ar Ogwr - un Cyngor a phartneriaid - i weithio gyda'n gilydd i ddiogelu a gwella canlyniadau i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Fy ngeiriau olaf yw diolch diffuant i'r holl Gynghorwyr a'm cydweithwyr ar draws y Cyngor ac mewn asiantaethau partner. Mae eich cefnogaeth wedi bod yn ddiwyro ac yn hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a lles sy'n gweithredu'n dda ac, ar y cyfan, yn perfformio'n dda iawn i bobl Pen-y-bont ar Ogwr. Ni ellid cyflawni'r cynnydd a nodir yn yr adroddiad hwn heb eich arweinyddiaeth, eich herio a'ch ymrwymiad.

Diolch o galon,

Claire Marchant

Cyfarwyddwr Corfforaethol y
Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

MIS GORFFENNAF 2025

Beth rydyn ni'n ei wneud?

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wedi'i ffurfio o wasanaethau statudol – Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Diogelu a Rhianta Corfforaethol. Rydym hefyd yn arwain y Gwasanaeth Atal a Lles sy'n cynnwys y bartneriaeth byw'n iach gyda **Halo Leisure** a'r bartneriaeth ddiwylliannol ag **Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen**.

Rydym yn gweithio gyda rhannau eraill o'r Cyngor, partneriaid, a phobl Pen-y-bont ar Ogwr i hyrwyddo lles a chysylltiad ac i ddiogelu ac amddiffyn pobl ag anghenion gofal a chymorth.

Ein gwasanaethau

Rydym yn darparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys:

GOFAL CYMDEITHASOL OEDOLION

Atal ac Ymyrryd yn Gynnar
Asesu a Chynllunio Gofal
Diogelu (Amddiffyn Oedolion)
Gwasanaethau Iechyd Meddwl
Camddefnyddio Sylweddau
Gofal Preswyl a Nyrsio Gofal
Ychwanegol
Byw â Chymorth
Gofal Cartref
Ailalluogi a Phreswyl
Ailalluogi
Cysylltu Bywydau
Cyfarpar, Addasiadau a
Theleofal
Gofal Seibiant
Taliadau Uniongyrchol
Gofal Dydd
Eiriolaeth

ATAL A LLES

Atal ac Ymyrryd yn Gynnar
Heini am Oes
Ymgysylltu â'r Gymuned
Heneiddio'n Dda
Cymorth Gofalwyr/
Gofalwyr Ifanc
Partneriaeth BAVO
• Creu Cymunedau
Gwydnwch
Partneriaeth Awen
• Llyfrgelloedd
• Theatrau/ Hybiau
Diwylliannol
• Mentrau Seiliedig ar
Waith
Byw'n Iach
Halo Partneriaeth
• Canolfannau Bywyd
• Cynllun Meddygon
Teulu i Atgyfeirio
Cleifion
• Atal Cwmpiadau
• Iechyd a Lles Aelodaeth
• Menter Nofio am Ddim

GWASANAETHAU PLANT A THEULU

Atal ac Ymyrryd
yn Gynnar
Asesu ac
Cynllunio Gofal
Diogelu
(Amddiffyn Plant)
Gofal Maeth
Gofal Preswyl
Pobl sy'n Gadael Gofal
Taliadau Uniongyrchol
Gofal Seibiant
Eiriolaeth

Pwy rydyn ni'n eu cefnogi?

Rydym yn gweithio gyda'r plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed, eu teuluoedd a'u gofalwyr er mwyn eu galluogi i fyw'n ddiogel ac yn iach. Yn aml, mae hyn mewn amgylchiadau heriol oherwydd oedran, anabledd, tlodi neu risg o esgeulustod a chamdriniaeth.

Eleni (fel oedd yn gywir ar 31 Mawrth), roedden ni'n darparu gwasanaethau i **1011 o blant a phobl ifanc**; a **1977 o oedolion**.

Mae'r tablau isod yn dangos nifer y bobl sy'n derbyn gofal a chymorth a reolir (ac eithrio'r rhai sy'n mynd trwy'r broses asesu, nad ydynt eto yn derbyn cynllun gofal).

GWASANAETHAU PLANT A THEULU

NIFER Y BOBL A GEFNOGIR*

Gofal a Chymorth	608
Amddiffyn Plant	75
Plant â Phrofiad o Fod mewn Gofal	333

* Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys 242 o blant ag anabledd a 126 o bobl sy'n gadael gofal. Mae plentyn neu berson ifanc yn gallu bod mewn mwy nag un categori.

GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

NIFER Y BOBL A GEFNOGIR**

Timau Gwaith Cymdeithasol Oedolion	1388
Anabledd Dysgu	347
Iechyd Meddwl	159
Hyb Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	72
Sefydliadau Diogel	11

** Mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol ac Atal ac Ymyrryd yn Gynnar i Oedolion yn cefnogi oedolion 18+ oed gan gynnwys oedolion hŷn, y rhai sydd ag amhariad gwybyddol, anabledd corfforol a/ neu golled neu amhariad synhwyraidd.

Rydym hefyd yn gweithio gyda llawer mwy o blant, teuluoedd, oedolion a gofalwyr yn ataliol.

2024-25: Y flwyddyn yn gryno

GWASANAETHAU PLANT A THEULU




CYNNYDD O 24%

14,828 o gysylltiadau yn ystod y flwyddyn



1244 o gysylltiadau wedi derbyn cyngor neu gymorth



GOSTYNGIAD O 58%

694 o ymchwiliadau adran 47 wedi'u cynnal



GOSTYNGIAD O 34%

1576 o asesiadau gofal a chymorth newydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn



GOSTYNGIAD O 4%

yn nifer y plant â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth



1011

GOSTYNGIAD O 25%

yn nifer y plant â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth



333

GOSTYNGIAD O 37%

yn nifer y plant â phrofiad o fod mewn gofal ar 31 Mawrth



75

GOSTYNGIAD O 60%

yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth

GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION



CYNNYDD O 7%

6210 o gysylltiadau yn ystod y flwyddyn



CYNNYDD O 31%

2553 o gysylltiadau wedi derbyn cyngor a chymorth



CYNNYDD O 36%

2509 o asesiadau gofal a chymorth newydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn



GOSTYNGIAD O 9%


387 o asesiadau gofal a chymorth newydd wedi symud ymlaen i gynllun gofal a chymorth



2038

GOSTYNGIAD O 7%

yn nifer yr oedolion â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth*



737

GOSTYNGIAD O 4%

yn nifer yr oedolion oedd yn derbyn gofal cartref ar 31 Mawrth



495

GOSTYNGIAD O 6%

yn nifer yr oedolion oedd yn cael eu cefnogi mewn gofal preswyl neu nysio ar 31 Mawrth

* Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 61 o oedolion sy'n hysbys i'r Tîm Anabledd a Phontio Plant gan eu bod yn 18+ oed. (Sylwer y byddai'r rhain hefyd yn cael eu cynnwys yn y 1011 o blant sydd â chynllun gofal a chymorth.)

Arweinyddiaeth

Mae 'Cyflawni Gyda'n Gilydd Ein Cynllun Corfforaethol 2023-28' yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor a sut y byddwn yn gweithio gyda phobl leol a phartneriaid i ddarparu gwasanaethau dros y pum mlynedd nesaf.

Cynhyrchwyd y cynllun gan ddefnyddio adborth gan staff, preswylwyr o bob oedran a chefnidir, defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau'r Cyngor, aelodau etholedig, sefydliadau partner ac awdurdodau lleol eraill.

Mae Bwrdd Rheoli Corfforaethol y Cyngor yn cael ei arwain gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y tri Chyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.



Arweinwyr Gwleidyddol ac Uwch Arweinwyr

Mae gan y Cyngor 51 o Gyngorwyr sy'n cael eu hethol bob pum mlynedd gan y gymuned. Maen nhw'n cynrychioli budd y cyhoedd yn ogystal ag unigolion sy'n byw yn y ward lle maen nhw wedi'u hethol. Maen nhw'n cynrychioli pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn gosod strategaeth gyffredinol y Cyngor a'r fframwaith cyllideb.

Mae'r **cyfansoddiad** yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a beth yw'r gweithdrefnau i'w dilyn. Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn ethol Maer i gadeirio'r Cyngor, cyflawni rôl ddinesig a hyrwyddo'r Sir. Mae'r Cyngor yn penodi Arweinydd y Cyngor sy'n penodi Aelodau Cabinet, y mae pob un yn gyfrifol am bortffolio gwasanaethau penodol. Mae'r Cabinet yn gyfrifol am y rhan fwyaf o benderfyniadau mawr, yn darparu arweinyddiaeth ac yn cynnig y fframwaith cyllideb a'r gyllideb i'r Cyngor.

Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y Cyngor yn cwrdd o leiaf 4 gwaith y flwyddyn i graffu ar berfformiad, y gyllideb a datblygiadau gwasanaethau, gan wneud argymhellion ar gyfer polisi a darparu gwasanaethau i'r dyfodol.

Mae Pwyllgor Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Arweinydd, yn cwrdd bob tri mis i wneud penderfyniadau polisi pwysig ar ddarpariaeth gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a phobl sy'n gadael gofal.

Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn aelod o Fwrdd Rheoli Corfforaethol (BRhC) y Cyngor a Bwrdd Rheoli Cabinet/Corfforaethol (BRhCC) y Cyngor bob pythefnos. Mae'r BRhCC a'r pwyllgorau craffu'n goruchwyllo cynnydd a pherfformiad y gyfarwyddiaeth yn erbyn pob un o amcanion allweddol y Cyngor. Mae'r llywodraethu hyn yn sicrhau arweinyddiaeth gorfforaethol gadarn a chysylltiad clir rhwng blaenoriaethau strategol a gweithredol y gyfarwyddiaeth ac amcanion cyffredinol y Cyngor.

Yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant rydym yn monitro gwybodaeth am sicrhau ansawdd, perfformiad a rheoli bob mis ar lefel tîm, gwasanaeth a chyfarwyddiaeth. Mae adolygiad perfformiad ac ansawdd manwl yn cael ei gynnal bob tri mis o bob grŵp o wasanaethau. Mae hyn yn darparu goruchwyliaeth reolaethol gadarn ac effeithiol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth gan sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni blaenoriaethau cynllun corfforaethol y Cyngor, cynllun busnes y Gyfarwyddiaeth, dangosyddion perfformiad statudol a lleol allweddol a gweithgareddau sicrhau ansawdd.



Gweithlu

Recriwtio a Chadw'r

Cadw a recriwtio'r gweithlu yw ein prif flaenoriaeth. Mae gweithlu uchel ei gymhellant sy'n cael ei gefnogi'n dda ac sydd wedi'i hyfforddi'n helaeth yn hanfodol i wasanaethau o ansawdd uchel a chanlyniadau cadarnhaol i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi.

MAES GWASANAETH	31 Mawrth 2024		31 Mawrth 2025	
	Cyferth ag amser llawn	Niferoedd	Cyferth ag amser llawn	Niferoedd
Gofal Cymdeithasol Oedolion				
Gwasanaethau Plant a Theulu	245.06	289	352.43	405
Atal a Lles	28.21	33	25.73	30
Strategaeth Busnes, Perfformiad a Gwelliant	67.12	71	72.74	77
Comisiynu	12.62	13	9.62	10
Cyfanswm	945.03	1171	1031.91	1256

Cynyddodd cyfanswm nifer y staff 7% dros y flwyddyn ddiwethaf a 12% o'i gymharu â mis Mawrth 2023. Bu cynnydd o 16 aelod ychwanegol o staff yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd oherwydd cyflunio gwasanaeth, gwell recriwtio a chadw a nifer o Wasanaethau Cymorth Cynnar ac Ymyl Gofal yn trosglwyddo i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles rhwng mis Ebrill a Gorffennaf 2024.

Rydym wedi gweithredu strategaeth recriwtio a chadw effeithiol ac wedi gwella sefyllfa'r gweithlu'n sylweddol ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, gyda gwell prosesau recriwtio, llai o gyfraddau swyddi gwag a llai o ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth. Ers mis Mai 2023 mae nifer cyffredinol y gweithwyr cymdeithasol o asiantaethau wedi gostwng

62% o 77 ym mis Mai 2023 i 29 ym mis Mai 2025. Mae ein cyfradd gadw wedi gwella o 81% yn ystod chwarter 4 2023-24 i 86% yn 2024-25.

Mae absenoldeb salwch yn uwch nag yr hoffem gyda'r ffigur yn cynyddu yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gofal Cymdeithasol Oedolion yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae cefnogi lles staff yn bwysig, felly rydym wedi hyrwyddo opsiynau gweithio hyblyg a lles ar lefel unigolion a thimau. Rydym yn gweithio gydag adnoddau dynol i reoli salwch ac absenoldeb trwy bolisiau'r Cyngor a sicrhau bod staff yn cael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae pwysigrwydd lles yn cael ei adlewyrchu yn ein harolwg staff gyda 93% o staff yn nodi eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth pan fo angen a dros 90% o staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr.

Tyfu Ein Gweithwyr Cymdeithasol Ein Hunain

Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr, gan ddarparu gwybodaeth gadarnhaol am yrfaedd mewn gofal cymdeithasol. Rydym yn darparu prentisiaethau i bobl sy'n dymuno dechrau gyrfa mewn gofal cymdeithasol. Mae gennym raglen Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n darparu llwybr i bobl sy'n gweithio mewn rolau mewn gofal cymdeithasol ennill cymwysterau a symud ymlaen tuag at y radd gwaith cymdeithasol, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Cafodd y ddwy raglen adborth cadarnhaol gan reolwyr.

Mae tyfu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain yn helpu i sicrhau bod gennym ddigon o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso. Rydym yn cynnig cyfleoedd secondiad a hyfforddeiaeth ar raglenni gradd a meistr gwaith cymdeithasol ac mae staff sy'n cymhwyso trwy'r llwybrau hyn yn parhau i fod yn gyflogedig gyda ni am gyfnod hirach. Yn 2024, cymhwysodd 6 aelod o staff fel Gweithwyr Cymdeithasol ac yn 2025, cymhwysodd 12 a llwyddodd pob un i gael swydd gyda ni.




Anrhyddedau Gofal Cymdeithasol 2025

Ym mis Ebrill 2022, dechreuon ni brosiect i recriwtio gweithwyr cymdeithasol rhyngwladol i Wasanaethau Plant a Theuluoedd. Fe wnaethon ni recriwtio 13 o weithwyr a adleolodd rhwng mis Mawrth 2023 a mis Tachwedd 2024.

Mae'r prosiect wedi cael ei gydnabod fel arfer rhagorol, gan ennill gwobr Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2025 yn y categori 'datblygu ac ysbrydoli'r gweithlu'.

Enwebwyd dau aelod o staff hefyd a chawsant eu cydnabod fel rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol â chlod uchel. Ffion Cole, Prif Swyddog Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer y wobwr Arweinyddiaeth Ysbrydoledig a Casey Baker, Gweithiwr Gofal Cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer gwobr WeCare Cymru.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am pam y cafodd Ffion, Casey a'r prosiect recriwtio rhyngwladol eu henwebu a'u cydnabod [yma](#).



Adborth Staff

Er mwyn deall barn a phrofiadau ein gweithlu dros y flwyddyn ddiwethaf, gofynnwyd i staff gwblhau arolwg. Dyma beth y dywedon nhw wrthon ni.

91%

Yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall yr hyn sy'n cael ei ddisgwyl yn eu rôl

85%

Yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth yn eu rôl

69%

Yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r cymorth priodol i gyflawni eu rôl

79%

Yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael cyfleoedd i gyfrannu at benderfyniadau o fewn eu tîm

95%

Yn cytuno neu'n cytuno i ryw raddau eu bod yn gallu cael mynediad hawdd i hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd

58%

Yn teimlo eu bod yn cael y cyfleoedd cywir i ddatblygu eu gyrfa mewn gofal cymdeithasol

79%

Yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr

89%

Yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr

78%

Yn nodi bod eu morâl yn gymedrol, yn uchel neu'n uchel iawn

70%

Yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwaith

93%

Yn gwybod sut i gael cymorth os oes angen

84%

Yn dweud y bydden nhw'n argymhell neu efallai'n argymhell gweithio mewn gofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Beth Nesaf?

Rydyn ni'n helpu ystod ehangach o bobl i ddechrau gyrfaedd yn y sector gofal cymdeithasol trwy brentisiaethau, profiad gwaith a chydweithio ag ysgolion, colegau a phrifysgolion. Rydyn ni hefyd yn gwella sut rydyn ni'n marchnata gyrfaedd gofal cymdeithasol, gan ei ddangos fel opsiwn gyrfa deniadol sy'n dwyn boddhad swydd mawr a chyfleoedd dilyniant da.

Rydyn ni'n bwriadu recriwtio pobl i rolau gofal cymdeithasol ar sail eu gwerthoedd, gan gydnabod bod gofal yn alwedigaeth. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu gweithlu hyderus ac iach a pharhau i leihau dibyniaeth ar staff asiantaeth.

Rydyn ni wedi sefydlu ein Hacademi Gofal Cymdeithasol ein hunain. Mae'r Academi yn cynnig mynediad i gyfleoedd dysgu a datblygu i staff, gofalwyr maeth, gofalwyr a gwirfoddolwyr o bob

rhan o'r sector Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant e-ddysgu, ar-lein ac wyneb yn wyneb sy'n galluogi unigolion i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio'n effeithiol. Er enghraifft, mae staff gofal preswyl sy'n darparu gofal corfforol a chymorth i unigolion wedi cwblhau hyfforddiant codi a chario, ymwybyddiaeth o feddyginiaethau, iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf. Mae ein Gweithwyr Cymdeithasol wedi cael mynediad i hyfforddiant megis Diogelu Plant ac Oedolion, Sgiliau Llys, Hawliau a Chyfranogiad Plant, Sgiliau Cofnodi a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.

Mae staff yr academi'n gweithio gydag ysgolion, cydweithwyr a gwasanaethau gyrfaedd a chyflogadwyedd i hyrwyddo gyrfaedd mewn gofal. Maen nhw'n cefnogi pobl sy'n ystyried gweithio mewn gofal gyda hyfforddiant cyn cyflogaeth a chyfleoedd lleoliad gwaith.



Adnoddau Ariannol

Fel yr adroddwyd yn Alldro Cyllideb Refeniw 2024-25 i'r Cyngor ar 25 Mehefin 2025, y gyllideb net ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant oedd £102.916 miliwn a'r alldro gwirioneddol oedd £103.925 miliwn, gan arwain at orwariant o £1.009 miliwn.

GCLI	2024-25 Cyllideb Gwariant £'000	2024-25 Cyllideb Incwm £'000	2024-25 Cyllideb Net £'000	2024-25 Alldro Gwirioneddol £'000	2024-25 Amrywiad Gwirioneddol £'000
Pobl Hŷn (65 oed a hŷn)	44,527	(12,859)	31,668	31,082	(585)
Oedolion (o dan 65 oed)	52,938	(11,876)	41,062	41,459	396
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	31,365	(1,179)	30,186	31,384	1,198
Cyfanswm	128,830	(25,914)	102,916	103,925	1,009

Yn 2024-25 fe wnaethon ni barhau i brofi pwysau gwasanaeth ac ariannol mewn gwasanaethau plant a theuluoedd ac oedolion.

Mae lleoliadau preswyl annibynnol yn ddud ac yn ychwanegu pwysau at gyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. By gostyngiad yn nifer cyffredinol y plant â phrofiad o fod mewn gofal dros y flwyddyn, ond roedd y nifer mewn lleoliadau preswyl yn aros yn sefydlog. Ond fel oedd pethau ar 31 Mawrth, roedden ni'n ariannu 19 lleoliad er bod y gyllideb yn darparu ar gyfer uchafswm o 8 yn unig. Mae nifer bach iawn o leoliadau hefyd yn "Gweithredu heb Gofrestriad" sydd hefyd yn cynyddu pwysau risg ac ariannol.

Er bod y risgiau lleoliadau hyn yn cael eu rheoli, mae angen cymarebau staff

uwch arnynt ac maen nhw'n ddutach.

Rhaid i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ynghyd â phob cyngor lleol yng Nghymru, lunio Strategaeth Comisiynu Lleoliadau a'i diweddarau bob blwyddyn, gan esbonio sut y byddwn yn darparu gofal, tai a chymorth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Rhaid i'r strategaeth hon hefyd ddangos sut y byddwn yn lleihau ac, yn y pen draw, yn rhoi'r gorau i ddefnyddio darparwyr gofal er elw yn unol â dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025. Er bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhywfaint o gyllid, nid yw'n talu'r holl gostau, sy'n rhoi pwysau ariannol ychwanegol arnom.

O fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion mae pwysau yn parhau ym maes

anableddau dysgu a gwasanaethau pobl hŷn sy'n cael eu hachosi gan gymhlethdod angen. Mae hyn yn golygu bod gan y bobl sy'n cyrchu ein gwasanaethau sawl angen sy'n rhychwantu nifer o'n gwasanaethau. Mae cynnydd yn ein poblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar wasanaethau gan fod angen help a chymorth ar fwy o bobl am gyfnod hirach sy'n cynyddu costau sy'n gysylltiedig â staff, amser ac adnoddau ychwanegol i ateb y galw.

Er mwyn ein cefnogi i fynd i'r afael â'r pwysau parhaus hyn, ym mis Chwefror 2025 cymeradwyodd y Cyngor £8.8 miliwn mewn pwysau cyllidebol ar gyfer 2025-26 fel rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2025-26 i 2028-29:

2025-26 BUDGET PRESSURE ALLOCATION

Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu	£519,000
Gofal Cartref Iechyd Meddwl	£679,000
Gofal Cartref Anableddau Dysgu	£325,000
Lleoliadau Gofal Preswyl a Nyrsio ar gyfer Anableddau Dysgu	£438,000
Taliadau Uniongyrchol i Bobl Hŷn	£369,000
Anabledd Corfforol/Amhariad ar y Synhwyrâu Gofal Cartref	£274,000
Offer Anabledd Corfforol/Amhariad ar y Synhwyrâu	£266,000
Llety â Chymorth i Bobl Ifanc	£201,000
Pwysau parhaus oherwydd Plant â Phrofiad o Fod mewn Gofal	£3.250 million
Goblygiadau'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gontractau a gomisiynwyd	£2.020 million

Mae'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn goruchwyllo camau gweithredu i fynd i'r afael â'r pwysau gwasanaeth ac ariannol yn y cyllidebau Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Gwnaed cynnydd da ym mlwyddyn gyntaf cynllun strategol 3 blynedd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a gymeradwywyd ym mis Medi 2023 Fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo cynllun ar wahân i wneud gofal cymdeithasol a chymorth i oedolion yn fwy cynaliadwy ym mis Tachwedd 2024. Roedd hyn yn dilyn cynllun tebyg i wella gwasanaethau plant a theuluoedd mewn modd cynaliadwy a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Medi 2023.

3

ASESIAD PERFFORMIAD

Mae'r adran hon yn gofyn i awdurdodau lleol fynd i'r afael ag wyth safon ansawdd o dan bedair adran, sef Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Lles.

Mae'r asesiad hwn yn cael ei gwblhau ar gyfer gwasanaethau plant a theuluoedd a gwasanaethau oedolion ac mae'n disgrifio sut mae'r awdurdod lleol wedi ceisio cyflawni'r safonau hyn trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r dull hunanasesu'n gofyn i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r pedwar cwestiwn canlynol:

1.

Beth rydyn ni'n ei wybod am ansawdd ac effaith yr hyn rydyn ni'n ei wneud?

2.

Sut rydyn ni'n gwybod hynny?
E.e. pa dystiolaeth o ymchwil, ymgysylltu a'r metrigau ydyn ni'n eu defnyddio i lywio'r asesiad hwn?

3.

Beth ydyn ni'n ei wneud yn dda a sut gallwn ni wneud yn well?
Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn enwedig dros y flwyddyn i ddod?

4.

Pa gynnydd wnaethon ni yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd?
Pa wahaniaeth wnaethon ni?

Mae pob adran wedi'i rhannu'n asesiad o Wasanaethau Plant a Theuluoedd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion a, lle mae gwaith wedi'i wneud ar draws ein cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gyfan, bydd yr adran berthnasol yn dechrau gyda diweddariad o'r enw "Ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles".

Ar ddiwedd pob un o'r 4 adran fe welwch hefyd ein blaenoriaethau ar gyfer 2025-26.



Pobl

Safonau Ansawdd

“Mae pob person yn bartneriaid cyfartal sydd â **dewis, llais a rheolaeth** dros eu bywydau ac sy’n gallu cyflawni’r hyn sy’n bwysig iddyn nhw”

“**Mae** arweinyddiaeth **effeithiol** yn amlwg ar bob lefel gyda **gweithlu** medrus iawn â chymwysterau rhagorol sy’n cael ei gefnogi’n dda yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir”

Ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol

Llais a Rheolaeth

Mae barn pobl yn chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i ddeall ble rydyn ni wedi gwneud yn dda a meysydd lle gallen ni wneud yn well. Mae ymgysylltu a chyfranogiad wrth wraidd popeth a wnawn.

Eleni rydyn ni wedi gwneud amrywiaeth o ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori.



Taliadau Uniongyrchol

Mae taliadau uniongyrchol yn helpu pobl i gael mwy o hyblygrwydd a rheolaeth ar sut mae eu gofal a'u cymorth yn cael eu darparu.



Mae'r graff yn dangos bod gostyngiad o 3% yn nifer yr oedolion sy'n derbyn taliad uniongyrchol ar 31 Mawrth 2025, a chynnydd o 18% yn nifer y plant a phobl ifanc. Mae adolygiad o daliadau uniongyrchol wedi'i gwblhau ac mae polisi a chanllawiau wedi'u datblygu. Mae dull clir a chyson o ddefnyddio taliadau uniongyrchol ar waith ers mis Ionawr 2025.



Cymorth Eiriolaeth

Mae eiriolwyr yn helpu i sicrhau bod hawliau, anghenion a llais pobl yn cael eu clywed.

Isod mae tabl sy'n nodi nifer y "Cynigion Rhagweithiol" o gymorth eiriolaeth i blant ac oedolion a wnaed yn ystod y flwyddyn, a'r nifer a aeth ymlaen i dderbyn cymorth gan eiriolwr.

	2022-23	2023-24	2024-25
Nifer y 'Cynigion Rhagweithiol' o eiriolaeth ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn	78	71	54
O'r rhain, nifer y plant lle darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol	70	64	39
Nifer yr oedolion lle nodwyd yrr angen am Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol	181	125	102
O'r rhain, nifer yr oedolion lle darparwyd Eiriolwr Annibynnol	173	87	67

Mae'r tabl yn dangos gostyngiad yn y cynnig eiriolwr yn y ddau faes gwasanaeth o'i gymharu â 2023-24.

Mae'r gostyngiad o 24% yn nifer y plant oedd yn cael cynnig eiriolwr yn ganlyniad i ostyngiad yn nifer y plant â phrofiad o fod mewn gofal a'r rhai oedd yn destun cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Gwaith â ffocws i gynyddu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer plant cymwys wedi'i wneud ac mae'r data wedi

gwella rhwng mis Medi a mis Mawrth 2024.

O fewn gofal cymdeithasol i oedolion, ni fu ddigon o staff yn ein gwasanaethau eiriolaeth i dderbyn atgyfeiriadau newydd. Er mwyn gwella'r sefyllfa hon, byddwn yn cynnal adolygiad o sut mae'r contract hwn yn cael ei weithredu er mwyn adlewyrchu'r gofynion cyfredol.

Cefnogi Arweinyddiaeth Effeithiol

Rydyn ni wedi gweithio ar draws y gyfarwyddiaeth yn y meysydd canlynol i gefnogi arweinyddiaeth effeithiol.

Datblygu'r Gweithlu

Mae cynllun datblygu'r gweithlu wedi'i greu i wella profiad ein gweithlu fel bod gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u gwerthfawrogi. Rydyn ni'n cyflawni'r cydbwysedd cywir o sgiliau a phrofiad yn ein timau ac yn cadw ac yn recriwtio ymarferwyr o safon uchel i'n gwasanaeth.

Mae ein strategaeth cadw a recriwtio yn gweithio, gan ddarparu cyfleoedd clir ar gyfer darparu cymorth mentora a chyfleoedd hyfforddi i reolwyr. Mae cymorth mentora trwy Gofal Cymdeithasol Cymru a'n partner gwella wedi helpu gyda'n gwaith cynllunio olyniaeth..

Llwybr Arwain a Rheoli

Mae ein llwybr a'n rhaglen datblygu rheolwyr ac arweinwyr yn rhan o'n cymorth i bob rheolwr ddatblygu eu sgiliau arwain timau a gwasanaethau.

Buon ni'n gweithio gyda'n partner gwella i gyflwyno rhaglen datblygu rheolwyr ac arweinwyr bwrsasol ac mae rheolwyr llinell gyntaf wedi cael cynnig Gwobr Lefel 3 ILM mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

Gwasanaethau Plant a Theulu

Llais a Rheolaeth

Deall Ymgysylltu â Theuluoedd

Rydyn ni wedi canolbwyntio ein gwaith sicrhau ansawdd ar ddeall pa mor dda mae cynlluniau gofal a chymorth yn darparu tystiolaeth o sut mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi cymryd rhan wrth lunio eu cynlluniau a bod y cynlluniau yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r rhai sy'n cymryd rhan. Daethon ni i'r casgliad bod ein cynlluniau gofal a chymorth yn dystiolaeth o lais y plentyn a bod plant a'u teuluoedd yn amlwg yn rhan o'u cynlluniau.

Rydyn ni wedi ymgorffori'r model ymarfer 'arwyddion diogelwch'. Rydyn ni hefyd wedi lleihau llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol plant mewn modd cynaliadwy. Mae hyn wedi cefnogi ymarferwyr i feithrin perthnasoedd â phlant a theuluoedd gan dreulio mwy o amser yn gweithio'n uniongyrchol gyda nhw. Mae'n eu helpu i ddeall eu cryfderau a'u cysylltiadau a datblygu cynlluniau diogelwch y mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn gyfrifol amdanynt. Mae arwyddion diogelwch yn rhoi'r teulu wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae adolygiad annibynnol wedi cadarnhau ein bod yn darparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir. Mae hyn yn ein helpu i ddeall y plentyn a'r teulu hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae angen ymateb uniongyrchol i ddiogelu.

ASTUDIAETH ACHOS:

Arwyddion Diogelwch ar Waith

Atgyfeiriwyd Plentyn A 14 oed i Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn 2023 oherwydd pryderon am gamfanteisio, perthnasoedd teuluol cynhennus a mynd ar goll. Roedd yr amgylchiadau hyn yn cynnwys A yn symud o ofal eu rhieni i ofal maeth awdurdodau lleol, gan symud 4 gwaith yn ystod 2023-24. Roedd yn hysbys bod A yn camddefnyddio sylweddau ac roedd pryder parhaus am eu diogelwch a'u lles.

Dyrannwyd gweithiwr cymdeithasol i A ac ym mis Rhagfyr 2024 gofynnodd y gweithiwr cymdeithasol a'r tîm diogelu am gymorth i gynnal cyfarfod rhwydwaith teulu Arwyddion Diogelwch i symud tuag at aduno'r teulu. Roedd y gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol yn cefnogi'r teulu a'r gweithwyr proffesiynol i gymryd rhan mewn ymarfer mapio i ystyried beth oedd yn gweithio'n dda, pryderon, ffactorau cymhlethu a'r camau nesaf i A, er mwyn datblygu cynllun diogelwch dan arweiniad y teulu a oedd yn gweithio i A a'u teulu.

Yn ystod y cyfarfod, gweithiodd y teulu a gweithwyr proffesiynol gyda'i gilydd i nodi'r risgiau a'r pryderon trwy "Ddatganiadau Perygl", gan ddatblygu nodau diogelwch a nodi meysydd cryfder a diogelwch. Roedd y cyfarfod yn cynnwys trafodaethau helaeth a thrwy weithio ar y cyd ag A a'u teulu, lluniwyd cynllun ar y cyd i gefnogi A i symud adref mewn ffordd ddiogel a chynlluniedig.

Erbyn mis Ionawr 2025 dychwelodd A adref i ofal eu rhieni. Buon nhw'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y teulu'n teimlo'n barod i gadw A yn ddiogel. Roedd y cymorth a gynigiwyd gan y gweithiwr cymdeithasol, y cartref preswyl a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cefnogi'r gwaith aduno llwyddiannus ac ym mis Ebrill 2025 tynnwyd A yn ddiogel oddi ar y gofrestr amddiffyn plant oherwydd y cynnydd cadarnhaol a wnaed.

Mae stori A yn dangos y canlyniadau cadarnhaol y gellir eu cyflawni trwy'r gwaith cymdeithasol cydweithredol, perthynol ar sail cryfderau sy'n cael ei gyflawni mewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd trwy'r model Arwyddion Diogelwch. Mae'r gweithiwr cymdeithasol wedi cael ei ganmol gan Swyddog Adolygu Annibynnol A am fod yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn berthynol yn eu hymarfer gwaith cymdeithasol.



Panel Stori

Mae gennym bellach 'banel stori' lle gellir rhannu straeon i glywed profiad bywyd teuluoedd. Mae'n ein galluogi i adlewyrchu ac adolygu effeithiolrwydd yr hyn rydyn ni'n ei wneud ac effaith ein cyfranogiad. Isod mae enghraifft o straeon a rennir.

Mae clywed y straeon a'r profiadau bywyd hyn yn ein helpu i fyfyrto ac ystyried pa mor effeithiol yw ein polisiâu presennol wrth hyrwyddo sgysiaau 'beth sy'n bwysig' a chanlyniadau cadarnhaol sy'n cael eu harwain gan y plentyn a'u teulu.



Datblygu Gweithlu Medrus sy'n Cael ei Gefnogi

Cefnogi Gweithredu Fframwaith Ymarfer

Dros y flwyddyn ddiwethaf gwnaethon ni gwblhau dadansoddiad o anghenion hyfforddiant. Roedd yn edrych ar sut mae ein rhaglen hyfforddi yn canolbwyntio ar anghenion ein gweithlu i sicrhau bod y cymorth gorau bosibl yn cael ei ddarparu i blant a'u teuluoedd.

Mae'r dadansoddiad hwn wedi ein helpu i gryfhau ein hymarfer a datblygu cynlluniau diogelwch teuluoedd sy'n cefnogi dulliau cynaliadwy hirdymor a symud i ffwrdd o gynlluniau gwasanaeth byrdymor.

Mae dros 180 o aelodau o'n gweithlu bellach wedi'u hyfforddi yn ein model ymarfer 'arwyddion diogelwch'.

'Newid Mwyaf Arwyddocaol'

Mae model y 'Newid Mwyaf Arwyddocaol' (NMA) yn ein helpu i gasglu adborth gan bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw i ddangos sut mae ein gwasanaethau'n gwneud gwahaniaeth. Mae'r straeon hyn yn nodi pethau y gallwn ni eu colli trwy ystyried ffeithiau a ffigurau yn unig ac yn ein helpu i ddeall pa mor effeithiol yw ein gwasanaethau a sut i'w gwella mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person.

O fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, fe gynhalion ni gynllun peilot gan ddefnyddio'r model NMA i gefnogi plant â phrofiad gofal a'u teuluoedd i leisio'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw i gefnogi aduno a meithrin perthnasoedd hirdymor parhaol. Roedd y peilot hwn yn ein galluogi i ddeall effaith ein gwaith, roedd yr ymateb iddo'n gadarnhaol a bydd yn cael ei gyflwyno ymhellach ar draws y gwasanaeth.

Rydyn ni wedi penodi Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol Arwyddion Diogelwch i ymgorffori'r model hwn ar draws y gwasanaeth ynghyd â Swyddog Datblygu'r Gweithlu sydd wedi darparu hyfforddiant mewnol ac a fydd nawr yn canolbwyntio ar bartneriaid hyfforddi.

Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Llais a Rheolaeth

Er mwyn sicrhau bod gan bobl Pen-y-bont ar Ogwr reolaeth dros yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, rydyn ni'n dylunio gwasanaethau ar y cyd â nhw ac yn sicrhau eu bod wedi'u targedu at anghenion cymunedau lleol.

Better Together Bridgend

Mae Better Together Bridgend yn bartneriaeth rhwng pobl ag anabledd dysgu, gyda chymorth Pobl yn Gyntaf, darparwyr cymorth a'r Cyngor. Mae'r bartneriaeth wedi cydgynhyrchu cynllun i wella gwasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae gan y grŵp fwrdd rhaglen sy'n cael ei chadeirio gan rywun ag anabledd dysgu.

Mae ffrydiau gwaith Better Together Bridgend yn cynnwys gwaith i ddatblygu cyfleoedd dydd trwy ddatblygu model prif ganolfan a lloerennau o amgylch yr hybiau cymunedol, estyn y defnydd o archwiliadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chefnogi rhieni i greu fforwm rhieni.

Grŵp Dweud eich Dweud

Dechreuodd y Grŵp Dweud eich Dweud yn 2022, gan ddod â phobl ag anableddau dysgu ynghyd sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain gyda chymorth staff sy'n gweithio o dan ymbarél gwasanaethau Byw â Chymorth BCBC. Dechreuodd fel cyfle i bobl ddod at ei gilydd yn anffurfiol i gymdeithasu, gweld ffrindiau ac ailsefydlu eu rhwydweithiau wyneb yn wyneb yn dilyn y cyfyngiadau a'r ynysu yr oedden nhw'n eu teimlo yn ystod COVID ond mae'r grŵp wedi datblygu'n rhwydweithiau cryf, cefnogol. Mae pobl yn cynllunio digwyddiadau cymdeithasol a phartïon ac yn gwahodd grwpiau eraill i ddod i rannu gwybodaeth am eu gwasanaethau – mae'r rhain wedi amrywio o elusennau a grwpiau eiriolaeth i dîm diogelu BCBC a'r Tîm Monitro Contractau.

Trwy'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau, mae pobl wedi creu cysylltiadau ystyrion a chysylltiadau cydweithredol. Mae'r dulliau cynhwysol hyn wedi helpu pobl i roi profiadau bywyd wrth wraidd y trafodaethau, y prosesau gwneud penderfyniadau a'u datblygiad personol eu hunain.

Ym mhob cyfarfod mae pobl yn cael y cyfle i rannu newyddion da, dathlu cyflawniadau a chydabod y llwyddiannau pob dydd sy'n aml yn mynd heb sylw. Trwy rannu profiadau, maen nhw wedi datblygu amgylcheddau sy'n gwerthfawrogi anogaeth a chefnogaeth. Ynghyd â rhannu diweddariadau cadarnhaol, mae'r grŵp hefyd yn rhoi cyfle i bobl fyfrio ar brofiadau dysgu. O oresgyn rhwystrau i lywio trwy systemau cymorth, mae pobl yn cael eu grymuso i rannu eu straeon a helpu eraill i ddysgu. Mae'r trafodaethau agored hyn yn helpu i wella dealltwriaeth pobl a hefyd yn sbarduno sgysiau am sut mae gwasanaethau'n gallu gwella a diwallu anghenion pobl yn well.

Mae'r cofnodion a'r log gweithredu yn cael eu cynhyrchu ar ffurf hawdd ei darllen.

Mae'r grŵp bellach yn cefnogi ein tîm diogelu gyda datblygu cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch i bobl agored i niwed sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

HAVE YOUR SAY! 25/7/25

①



██████ WAS HAPPY TO SEE HER FRIENDS AT THE MEETING.




██████ AND ██████ ARE LOOKING FOR A HOUSE TOGETHER.



EVERYONE IS ENJOYING THE TEA/COFFEE AND BISCUITS!



CLARE DIRECTOR OF SOCIAL SERVICES VISITED TO MEET EVERYONE. SHE TOLD US WHAT SHE DID AND LIKES TO LISTEN TO EVERYONE.



██████ HAS BEEN PLAYING IN FOOT TOURNAMENTS.



██████ IS LOOKING FORWARD TO HER 40TH NEXT YEAR!



██████ IS HAPPY TO BE ABLE TO SEE EVERYONE!



██████ IS NEW TO THE GROUP! WELCOME ██████!

25/7/25

②



██████ IS LOOKING FOR A NEW PHONE AND PLANNING A HOLIDAY.


██████ WENT ON A CANAL BOAT AND HAD SOME LUNCH Cakes!



██████ HAD COCKTAILS AND SAW SOME SHOWS!



LEON AND BETH WERE VISITING US! THEY TOLD US HOW THEY CAN HELP US! THEY ARE FROM SAFEGUARDING.



THEY ARE LEADING A FOCUS GROUP AND ARE LOOKING FOR VOLUNTEERS.

WE WILL WORK TOGETHER!

LEON WILL ARRANGE A PRESENTATION TO GIVE MORE INFORMATION.



THANK YOU FOR COMING!
SEE YOU NEXT TIME!

THERE MAY BE AN AWARDS CEREMONY. WHAT AWARDS SHOULD WE HAVE?



Y Gymraeg

Mae 'Mwy na Geiriau' yn fframwaith strategol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru sydd, ynghyd â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol ac iechyd ar draws Cymru.

It is important that the Mae'n bwysig bod y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cael cyfle i gyfathrebu yn eu dewis iaith.

ASTUDIAETH ACHOS:

Mwy Na Geiriau

Iaith gyntaf a dewis iaith A yw'r Gymraeg. O ganlyniad i hyn, cwblhawyd asesiad galluedd A yn Gymraeg, lle cynhaliwyd trafodaethau â'u teulu yn Gymraeg hefyd oherwydd mai hon oedd eu hiaith gyntaf a'u dewis iaith.

Roedd A yn mwynhau rhyngweithio â'r ymarferydd yn Gymraeg, ac roedd yn dal eu llaw ac yn gwenu trwy gydol y broses asesu.

Canlyniad yr asesiad oedd nad oedd gan A alluedd ynghylch eu cynlluniau rhyddhau o'r ysbyty ond roedd wedi mwynhau'r cyfle i rhyngweithio â rhywun yn yr iaith yr oeddent yn ei deall orau.

Dywedodd y teulu mai dim ond yn Gymraeg yr oedd A wedi siarad â nhw. Fel teulu, roedden nhw hefyd yn falch o gael eu cefnogi gan yr ymarferydd trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod anodd o lywio trwy'r broses rhyddhau o'r ysbyty.

Datblygu Gweithlu Medrus sy'n Cael ei Gefnogi

Mae hyfforddiant a datblygu wedi'u targedu ar draws nifer o'n gwasanaethau i sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau a'u bod yn meddu ar y cymwysterau priodol i ymgymryd â'u rolau. Mae rhai meysydd o hyfforddiant a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu hamlygu isod.

Model Ymarfer ar Sail Cryfderau sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau

Fe wnaethon ni gyflwyno hyfforddiant i gefnogi gweithredu ein model ymarfer yn gyson i sicrhau ei fod wedi'i ymgorffori ar draws y gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu mewn goruchwyliaeth a chymorth gan gymheiriaid.

Cynhelir cyfarfodydd bob pythefnos i fonitro perfformiad ac effaith y model a sicrhau ei fod yn gyson ar draws pob maes o'r gwasanaeth.

Atal Cwypmiadau

Mae hyfforddiant atal cwypmiadau ar gyfer gweithwyr cymorth yn tynnu sylw at brif achosion cwypmiadau a'u heffaith ar oedolion hŷn. Mae'n rhoi gwybodaeth ymarferol a chynghor ar yr hyn y gellir ei wneud i leihau'r risg o gwypmiadau.

Mae'r hyfforddiant wedi'i gyflwyno i'n holl staff gofal cartref a gofalwyr mewn cartrefi gofal ac mae wedi'i addasu i gefnogi staff cymunedol o bartneriaid trydydd sector, Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) a Gofal a Thrwsio.

Ar hyn o bryd mae hyfforddiant yn cael ei gynnig i ddarparwyr gofal cartref annibynnol yn yr ardal, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu i 325 o bobl yn ystod y flwyddyn.

Teleofal/Gofal wedi'i Gyfoethogi gan Dechnoleg

Mae'r modiwl e-ddysgu teleofal bellach yn orfodol ac yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer yr holl staff, gan amrywio o ofalwyr i weithwyr cymdeithasol. Mae wedi galluogi staff i fod yn fwy ymwybodol o deofal ac i adnabod offer pan fyddan nhw yng nghartref person fel y gallan nhw gysylltu â'r tîm teleofal os ydyn nhw'n nodi unrhyw broblemau technegol. Mae'r modiwl hefyd yn rhoi canllawiau ar sut i gwblhau atgyfeiriad teleofal yn gywir fel y gellir osgoi oedi.

Mae'r tîm teleofal wedi bod yn rhagweithiol wrth sefydlu sesiynau galw heibio misol ar gyfer ymarferwyr fel y gellir defnyddio data diagnostig fel rhan o'r broses asesu i becynnau gofal maint cywir. Mae cyfarfodydd hefyd wedi'u trefnu gyda'r holl dimau gwaith cymdeithasol i helpu i godi proffil gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg i gefnogi ein gwasanaethau rheng flaen i ryddhau capasiti gofal.

Pobl: Blaenoriaethau Allweddol 2025-26

AR DRAWS GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyd-ddylunio a chefnogi gweithgareddau iechyd a lles yn y gymuned ar draws partneriaethau Awen a Halo.

Gweithio gyda gofalwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu am anwyliad ac aelodau o'r teulu sydd â diagnosis dementia i ddatblygu rhwydweithiau gofalwyr a deall beth sydd ei angen.

GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Parhau i weithredu ein cynlluniau gweithlu i wneud yn siŵr ein bod yn parhau i adeiladu ar broses dda wrth recriwtio a chadw staff.

Parhau i hyfforddi a chefnogi ein staff i ddefnyddio'r model ymarfer Arwyddion Diogelwch ar draws pob maes o'r gwasanaeth.

GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

Cwblhau adolygiad ar sail tystiolaeth o Ganolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr ac adolygu cyfleoedd cyfalaf a refeniw ar gyfer y defnydd gorau posibl o adeiladau cymunedol ledled y fwrdeistref.

Darparu rhaglen hyfforddi a datblygu dreigl gynhwysfawr i gefnogi'r broses o weithredu'r model ymarfer gofal cymdeithasol i oedolion yn gyson, i sicrhau ei fod wedi'i ymgorffori ar draws y gwasanaeth.

Datblygu achos cyfiawnhau busnes dros fodel 'craidd a chlwstwr' o fyw â chymorth i bobl ag anableddau dysgu ar safle Sunnyside.



Atal

Safonau Ansawdd

“Mae’r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac mae’n atal cynnydd yn yr angen wrth sicrhau’r **canlyniadau** gorau i bobl”

“Mae gwydnwch o fewn **cymunedau** yn cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial trwy gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gymorth, gan gynnwys **gofalwyr**, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas”

Ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol

Hyrwyddo Cymunedau Cryf

Mae ein cynlluniau strategol 3 blynedd ar gyfer plant a theuluoedd ac oedolion yn pwysleisio pwysigrwydd atal ac ymyrryd yn gynnar wrth gadw teuluoedd gyda'i gilydd a chefnogi annibyniaeth a chysylltiad â ffrindiau, aelodau'r teulu a'r gymuned.

Mae ein Gwasanaeth Atal a Lles a'n Gwasanaethau Cymorth Cynnar ac Ymyl Gofal a'n partneriaid byw'n iach, ymddiriedolaeth ddiwylliannol a thrydydd sector yn chwarae rôl bwysig wrth ein helpu i gefnogi pobl yn eu cymunedau trwy weithio gyda nhw i atal problemau rhag gwaethygu a gyda phobl sydd angen gofal a chymorth hirdymor gan wasanaethau cymdeithasol.

Cymunedau Gwydn a Chysylltiedig

Mae'r rhaglen 'Creu Cymunedau Gwydn a Chysylltiedig' yn cefnogi lles unigol a chymunedol. Mae'n rhaglen draws-sector gyda Chymdeithas Cyrff Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) a'r trydydd sector ehangach, i gefnogi lles unigolion a chymunedol. Mae'r dull partneriaeth hwn wedi sicrhau buddsoddiad Partneriaeth Ranbarthol i fynd i'r afael â meysydd megis unigrwydd ac ynysu, cysylltu pobl â chymorth o fewn cymunedau, datblygu lles gofalwyr ac adeiladu rhwydweithiau cymunedol â diben cyffredin (e.e. anabledd, oedolion hŷn).

Mae Cysylltwyr Cymunedol Lleol (CCLI) yn rhan o'n Gwasanaeth Atal a Lles. Maent yn anelu at gefnogi annibyniaeth person trwy ddarparu cymorth i osgoi neu oedi'r angen am ofal statudol trwy hyrwyddo cryfder a gwydnwch unigol. Maen nhw'n cydnabod ac yn cefnogi gwerth rhoddion, sgiliau ac asedau unigol, rôl bwerus a chadarnhaol teuluoedd a pherthnasoedd a'r cyfraniad y gall cymunedau lleol ei wneud fel dewis arall i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Cymunedau Gwydn a Chysylltiedig: Crynodeb 2024-25

Y RHAGLEN CREU CYMUNEDAU GWYDN A CHYSYLLTIEDIG:

Cyfeiriwyd **2288** o bobl i wasanaethau perthnasol

Cefnogwyd **564** o bobl i wneud ffrindiau newydd neu wella eu rhwydweithiau cymorth.

CYSYLLTWYR CYMUNEDOL LLEOL:

Cefnogwyd **272** o sefydliadau i ddatblygu neu ddarparu cyfleoedd ataliol ar sail sgysiau “beth sy’n bwysig”

Nodwyd bod **137** o bobl wedi mynychu cyfarfodydd rhwydwaith

Adroddodd bod **587** o bobl wedi cynyddu eu cysylltiadau cymdeithasol

Y CAMAU NESAF:

Meithrin partneriaethau cydlynol cryfach ar draws y 3ydd sector

Cynnal gweithdai gyda phartneriaid atgyfeirio i sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu hatgyfeirio i’r gwasanaeth cywir

Cryfhau ymgysylltu â gwasanaethau cymorth cynnar i helpu i lywio a llunio’r cynnig cymorth i deuluoedd

Sicrhau capasiti i gefnogi anghenion y rhai sydd wedi’u cyfeirio at y gymuned

Lles Gofalwyr

Rydyn ni’n cynnig ystod o wasanaethau i gefnogi gofalwyr ar draws y fwrdeistref.

- Mae **Gwasanaeth Lles Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr** sy’n cael ei gyflwyno gan y cyflwynwyd gan yr elusen TuVida, yn cefnogi gofalwyr di-dâl ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae’n darparu ystod o wasanaethau gan gynnwys cyngor ar ofalu, mynediad i seibiannau, grwpiau cymorth, hyfforddiant am ddim, grantiau gofalwyr, a chymorth iechyd a lles. Nod y gwasanaeth yw helpu gofalwyr i reoli eu rôl ofalu wrth gynnal eu hiechyd a’u lles eu hunain. Dros y flwyddyn derbyniodd

y gwasanaeth 553 o atgyfeiriadau, gyda 1522 o ofalwyr yn cael eu cefnogi neu eu cyfeirio at wasanaeth perthnasol.

- Cyflwynodd rhaglen seibiant Gofalwyr Halo 9 sesiwn gymunedol, gan ddarparu 18 awr o ofal newydd ac roedd 60 o bobl yn bresennol.
- Dros y flwyddyn, mae Cwmpas wedi cefnogi 83 o ofalwyr di-dâl i dderbyn cymorth lleol.

- Mae’r prosiect mentora cymheiriaid yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â **Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr** ar gyfer gofalwyr ifanc rhwng 7 a 25 oed. Fe roddodd gyfle i 57 o ofalwyr ifanc wneud ffrindiau newydd, teimlo eu bod yn perthyn a’u gwneud yn llai unig. Dywedodd pob gofalwr ifanc wrthym eu bod yn teimlo’n well ynddynt eu hunain, gyda gwell iechyd meddwl, mwy o hyder a hunan-barch a sgiliau bywyd gwell.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn creu grŵp gofalwyr strategol ym Mhen-y-bont ar Ogwr i sicrhau bod barn yr holl ofalwyr di-dâl yn cael ei chlywed ac y gweithredir arni er mwyn cydgyhyrchu strategaeth gofalwyr. Bydd y grwpiau’n cynnwys cynrychiolwyr o’r Cyngor a chynrychiolwyr gofalwyr o sefydliadau 3ydd sector.

Gofalwyr Ifanc

Mae Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr yn bartneriaeth rhwng y Cyngor, Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, Whitehead Ross, Tu-Vida, Awen, Halo, Grŵp Rhwydwaith Cynhwysol Pen-y-bont ar Ogwr, BAVO, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr ac ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y fwrdeistref.

Dechreuodd y rhwydwaith ei daith yn 2022 ac mae wedi parhau i dyfu, gan ddarparu llwyfan i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc gael eu clywed ac i'w hanghenion gael eu hystyried. Mae'n cael ei arwain gan genhadon gofalwyr ifanc rhwng 11 a 25 oed sy'n chwarae rhan hanfodol wrth arwain gweithgareddau ac ennyn diddordeb mewn ymuno â'r rhwydwaith.

Mae'r grŵp wedi tyfu o 3 i 17 o genhadon sydd i gyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gyd-ddylunio a chefnogi llais gofalwyr ifanc eraill i gael eu clywed ac arwain at gamau gweithredu, wrth chwalu rhwystrau i ofalwyr ifanc ffynnu a chyrraedd eu potensial llawn. Er bod llawer o ofalwyr ifanc yn rhagori gartref, yn perfformio'n dda yn academiaidd ac yn cynnal perthnasoedd cryf â ffrindiau, mae eraill yn wynebu heriau sylweddol ac mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Un o'r prif rwystrau maen nhw'n dod ar eu traws yw dod o hyd i'r amser a'r lle i ganolbwyntio ar eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr yn trefnu digwyddiadau yn ystod y tymor sy'n dod â gofalwyr ifanc at ei gilydd i rannu profiadau, dysgu oddi wrth ei gilydd a gwneud ffrindiau newydd.

Mae gofalwyr ifanc a rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu nodi'n gynt a'u cefnogi mewn ffyrdd sy'n eu helpu i gadw'n iach, rheoli cyfrifoldebau ac aros mewn addysg neu waith. Mae'r cymorth hyn sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn helpu i adeiladu gwydnwch a lleihau'r pwysau ar wasanaethau statudol.

Cymorth i Ofalwyr Ifanc

Gyda chefnogaeth y Bartneriaeth Byw'n Iach

- Mae 294 o Ofalwyr Ifanc yn manteisio ar Aelodaeth Halo.
- Mae 549 o gardiau adnabod Gofalwr Ifanc wedi'u cyhoeddi.

Mae **17** o genhadon Gofalwyr Ifanc mewn ysgolion ar draws y fwrdeistref.

Mae **167** o blant ysgol gynradd yn ymryd rhan, a **381** o ofalwyr sy'n ddisgyblion ysgol uwchradd ac yn oedolion ifanc.

Aeth **154** o Ofalwyr Ifanc i ddiwrnodau "Rydyn ni'n cael ein gwerthfawrogi", gyda chefnogaeth lleoliadau addysgol.

Y CAMAU NESAF

Er mwyn cefnogi gofalwyr ifanc ymhellach, byddwn yn:

Creu cyfres o ffilmiau eiriolaeth byr i ysgolion i wella ymwybyddiaeth staff ysgolion o'r maes hwn

Parhau i gryfhau perthnasoedd â gofalwyr ifanc a grwpiau gofalwyr sy'n oedolion ac yn rhieni

Digwyddiad Gofalwyr Ifanc

Ar hyn o bryd mae'r Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc yn cefnogi 146 o ofalwyr ifanc. Ym mis Mawrth 2025 fe gynhalion nhw ddigwyddiad a oedd, yn ogystal â chynnig cyfle i ofalwyr ifanc gasglu gwybodaeth i helpu gyda'u rôl ofalu, yn rhoi amser iddyn nhw eu hunain.

Roedd hefyd yn gyfle i Ofalwyr Ifanc gael amser i ffwrdd o'u cyfrifoldebau, eu rôl ofalu, yr ysgol ac unrhyw bwysau arall a allai fod wedi bod arnyn nhw.




Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Atal Cynnydd yn yr Angen am Ofal a Chymorth

Atal ac Ymyrryd yn Gynnar

Ymunodd Cymorth Cynnar ac Ar Ffiniau Gofal â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024. Gweithredwyd prosesau atgyfeirio newydd ym mis Medi 2024 yn unol â'n hegwyddor 'dim drws anghywir' o ran pobl yn cael mynediad i'r cymorth cywir gan y person cywir ar yr adeg gywir.



Mae **Cymorth Cynnar** yn wasanaeth ataliol sy'n yn canolbwyntio ar sylwi ar broblemau a mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl. Mae'n helpu i feithrin perthnasoedd dibynadwy ac yn darparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i leihau cymorth mwy dwys yn ddiweddarach. Mae'r gwasanaeth yn darparu ystod o gymorth.

I gael rhagor o wybodaeth am effaith Cymorth Cynnar, gweler adran Lles yr adroddiad hwn.

Ar Ffiniau Gofal

Mae **Ar Ffiniau Gofal** yn darparu gwasanaethau i deuluoedd sydd eisoes yn derbyn gofal a chymorth i'w helpu i wneud y newidiadau angenrheidiol i atal plant rhag mynd i'r system ofal, gan ganolbwyntio ar 6 maes allweddol.

GWASANAETHAU AR FFINIAU GOFAL



YMATEB CYFLYM

Cymorth tymor byr i blant a theuluoedd mewn argyfwng



CYSYLLTU TEULUOEDD

Cymorth tymor canolig i blant a theuluoedd lle mae pryderon am ddiogelwch plant



MEDDWL AM Y BABAN

Cymorth dwys cyn ac ar ôl genedigaeth i deuluoedd a rhwydweithiau ehangach i sicrhau bod y baban yn gallu aros yng ngofal y teulu yn ddiogel



CYMORTH INTEGREDIG I DEULUOEDD

Cymorth hirdymor i deuluoedd sy'n dioddef oherwydd trawma



GWEITHIWR CYMORTH TADAU

Cymorth un i un neu grŵp i ddatblygu perthnasoedd tadau â'u plant



RISE

Cymorth hirdymor i deuluoedd y mae eu plant wedi'u rhoi mewn gofal ac wedyn wedi cael eu mabwysiadu

DADANSODDIAD O WASANAETH AR FFINIAU GOFAL: 2024-25

222 o atgyfeiriadau wedi'u derbyn gan Ar Ffiniau Gofal yn ystod y flwyddyn

92% o deuluoedd a ymgysylltodd â'r gwasanaeth wedi cael eu cefnogi'n llwyddiannus i atal plant a phobl ifanc rhag gorfod mynd i'r system ofal

CYSYLLTU TEULUOEDD

Cyfanswm o 97 o achosion

Fe wnaeth 85 o deuluoedd dderbyn cymorth

96% o achosion wedi'u cefnogi'n llwyddiannus

MEDDWL AM Y BABAN

28 o deuluoedd

Fe wnaeth 28 o deuluoedd dderbyn cymorth

82% o achosion wedi'u cefnogi'n llwyddiannus trwy gymorth seiliedig ar drawma

GWASANAETH CYMORTH INTEGREDIG I DEULUOEDD

Cyfanswm o 22 o achosion

86% o achosion wedi'u cefnogi'n llwyddiannus

YMATEB CYFLYM


Cyfanswm o 61 o achosion

95% o achosion wedi'u cefnogi'n llwyddiannus



Cysylltu â'r Gwasanaeth

Dros y flwyddyn ddiwethaf cynyddodd nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd 24%.



Fodd bynnag, er bod nifer y cysylltiadau wedi cynyddu, mae cyfran y cysylltiadau lle roedd angen cyngor a chymorth wedi gostwng o 19% o'r holl gysylltiadau a dderbyniwyd yn 2023-24 i 8% yn 2024-25. Mae hyn yn dangos effaith ein hymdrech i ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar trwy gymorth anstatudol (gwasanaethau cymdeithasol).

Gyda chymorth cynnar wedi'i gydleoli o fewn MASH a hybiau diogelu lleol, mae'r gallu i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir gan y gwasanaeth

cywir wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf. I ddangos hyn, rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025 derbyniwyd 237 o atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar, sy'n cyfateb i gynnydd o 22.8% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024.

Rydyn ni wedi nodi bod angen gwahanu atgyfeiriadau a chysylltiadau. Mae dosbarthu pob cyswllt fel atgyfeiriad yn gwneud ein ffigurau yn ymddangos yn fwy nag awdurdodau lleol eraill, gan y gall nifer o atgyfeiriadau fod yn gysylltiedig â'r un digwyddiad.

Asesiadau Gofal a Chymorth

Dros y flwyddyn, fe wnaethon ni gwblhau 1576 o asesiadau gofal a chymorth newydd i blant a phobl ifanc, sy'n ostyngiad o 34% o'i gymharu â 2023-24.



Mae'r gostyngiad mewn asesiadau yn dangos effeithiolrwydd ein teclyn sgrinio Arwyddion Diogelwch sydd wedi cynorthwyo i wneud penderfyniadau cliriach ynghyd â'n hymgyrch ymyrraeth gynnar trwy ddulliau ataliol. Yn gyffredinol, roedd 45% o asesiadau newydd yn gallu cael eu cefnogi y tu allan i wasanaethau statudol o'i gymharu â 43% yn 2023-24.

Yn dilyn adolygiad annibynnol diweddar o drefniadau drws ffrynt, cadarnhawyd bod ymarfer a phrosesau gwneud penderfyniadau yn ddiogel ac yn adlewyrchu ein model ymarfer. Rydyn ni wedi nodi ystod o feysydd gan gynnwys trothwy, gwneud penderfyniadau a chydweithio ar gyfer gwella.



Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Atal Cynnydd yn yr Angen am Ofal a Chymorth

Mae ymyrryd yn gynnar ac atal cynnydd mewn angen yn helpu pobl i aros yn annibynnol lle bo hynny'n bosibl. Er mwyn hyrwyddo annibyniaeth, cyflwynwyd nifer o fentrau ar draws ein gwasanaethau cymunedol.

Ailfodelu Gofal Cartref: Y Daith Cymorth yn y Cartref

Rydyn ni wedi gwella Cymorth yn y Cartref, gan gynyddu effeithiolrwydd ymyriadau tymor byr i bobl yn y gymuned i leihau neu gael gwared ar yr angen am ofal tymor hwy gartref.

Rydym wedi uwchsgilio'r holl staff gofal sydd bellach yn gweithio mewn ardaloedd pwrpasol i gynyddu capasiti gofal a lleihau amser teithio. Roedden ni hefyd yn ceisio asesu 75% o bobl a oedd yn ymddangos bod angen gofal a chymorth arnynt trwy'r Tîm Asesu Cymorth yn y Cartref. Trwy fapio darpariaeth bresennol pobl, roedden ni'n gallu creu 3 rhwydwaith cymorth lleol. Mae pob rhwydwaith yn cynnwys Arweinydd Tîm a 2 gydlynnydd, pob un wedi'i gefnogi gan nifer o staff gofal uniongyrchol dynodedig. Cyflwynwyd y strwythur newydd ym mis Hydref 2024.

Mae'r model newydd wedi galluogi ymateb llawer mwy effeithlon ac effeithiol i nodi a darparu cymorth. Mae wedi cefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth trwy ddarparu cyfle i dderbyn gwasanaethau ailalluogi a, lle mae angen gofal a chymorth, sicrhau ei fod yn gymesur ag anghenion y person. Yn ystod 2024-25, cwblhaodd 509 o bobl gyfnod ailalluogi, sy'n gynydd o 35% o'i gymharu â 2024-25 lle cwblhaodd 377 o bobl gyfnod ailalluogi.

Y camau nesaf yw darparu hyfforddiant pellach i uwchsgilio staff gofal mewn arferion ailalluogi gwell a gweithio i wireddu gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth amlddisgyblaethol wrth ddrws ffrynt gwasanaethau oedolion i gynyddu'r ymyriadau cynharach.

O'r Gwely i'r Gadair: Prosiect Adsefydlu ar gyfer Oedolion â Chyflyrau Cymhleth, Hirdymor

Cydnabuwyd bod angen mwy o gymorth ar rai pobl y mae angen ailalluogi dan arweiniad therapi arnynt.

Er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn, rydym wedi darparu cymorth cymunedol i bobl sydd yn y perygl mwyaf o gael eu derbyn i'r ysbyty neu ofal hirdymor trwy ymyriadau ailalluogi.

Mae'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar unigolion a'r gwasanaeth. Trwy gynyddu capasiti yng nghyfnodau cynnar y broses atgyfeirio a darparu ymyrraeth fwy amserol, mae pobl, yn ogystal â chadw eu hannibyniaeth a gwella eu lles, wedi gweld eu risg o gael eu derbyn i'r ysbyty yn lleihau, a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar ofal a chymorth hirdymor.

ASTUDIAETH ACHOS:

Osgoi Cartrefi Gofal

Mae Oedolyn B yn byw mewn llety gwarchod ac fe'i hatgyfeiriwyd i Weithiwr Cymdeithasol i'w derbyn i gartref gofal oherwydd hunanesgeulustod cynyddol oedd yn arwain at broblemau iechyd sylweddol. Roedd B yn gwrthod gofal gan yr asiantaeth gofal bresennol ac roedd mewn perygl o gael eu troi allan o'u llety gwarchod.

Trafodwyd achos B yn y Tîm Amlddisgyblaethol ac roedd asesiad yn canolbwyntio ar yr hyn oedd yn bwysig i B. Cafodd cynllun ei roi ar waith i'w galluogi i aros yn eu llety gwarchod a lleihau'r risgiau. Roedd hyn yn cynnwys:

- rhaglen Technegydd Therapi a ddyluniwyd gan y Therapydd Galwedigaethol
- prynu cadair mynd yn ôl
- dechrau rhaglen ffisiotherapi ar waith seiliedig ar gryfderau
- ac archebu cymhorthyn symudedd a'i adeiladu'n gryf i allu mynd i'r toiled yn annibynnol.

Roedd hyn yn golygu bod galwadau gofal B yn gallu cael eu lleihau o 4 i 2 y dydd a bod modd tynnu'r cymorth gan nyrs ardal yn ôl a, thrwy'r Gweithiwr Cymdeithasol, newid yr Asiantaeth Gofal a dylunio rhaglen ofal newydd i gyflwyno dulliau ailalluogi.


Roedd y dull hwn yn golygu bod B yn gallu aros yn eu cartref a bod mor annibynnol ag y gallai fod. Roedd hyn yn ganlyniad llawer gwell i B yn ogystal ag arbed ffioedd cartrefi gofal i'r awdurdod lleol.

Roedd 495 o bobl yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol mewn lleoliadau cartrefi gofal ddiwedd mis Mawrth 2025 o'i gymharu â 524 ar ddiwedd mis Mawrth 2024 sy'n dangos canlyniadau'r gwaith targedu hwn gyda'n dinasyddion mwyaf agored i niwed. Mae'r cyflawniad hwn yn arbennig o gadarnhaol o ystyried y boblogaeth gynyddol ac sy'n heneiddio ym Mhen-y-bont ar Ogwr.



Cysylltu â'r Gwasanaeth

Cafwyd cynnydd o 7% mewn contractau newydd yn ystod 2024-25 o'i gymharu â 2023-24.




Yn ystod rhan olaf y flwyddyn, fe gyflwynon ni newid i brosesau ein Hyb Atal ac Ymyrryd yn Gynnar (HAYG), gyda chysylltiadau'n cael eu cyfeirio trwy ein Drws Ffrynt Corfforaethol.

Er bod nifer y rhai sy'n derbyn cyngor a chymorth wedi cynyddu yn unol â'r cynnydd mewn cysylltiadau cyffredinol, mae ein gwaith gyda Drws Ffrynt Corfforaethol y Cyngor yn sicrhau mai dim ond y cysylltiadau hynny sydd angen cymorth gofal cymdeithasol sy'n cael eu trin gan wasanaeth yr HAYG.

Asesiadau Gofal a Chymorth

Yn ystod 2024-25, cwblhawyd 2509 o asesiadau gofal a chymorth newydd i oedolion, sy'n gynydd o 37% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.



Mae'r data hwn bellach yn cynnwys yr asesiad cymesur newydd a gwblhawyd gan yr HAYG.

Mae'r gostyngiad yn nifer yr asesiadau sydd wedi arwain at gynllun gofal a chymorth yn arwydd cadarnhaol bod ymarferwyr yn defnyddio'r dull "Seiliedig ar Gryfderau, Canolbwyntio ar Ganlyniadau" yn effeithiol yn ystod asesiadau.

Mae'r angen am gynlluniau gofal a chymorth wedi lleihau wrth i ni weithio gyda phobl i ddeall eu cryfderau a'u hadnoddau, sy'n lleihau'r angen i rai pobl bod â chynllun gofal a chymorth ar waith i ddiwallu eu hanghenion.

Y Gwasanaeth Ailalluogi

Fel y nodwyd yn gynharach, by cynnydd o 35% yng nghyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i ailfodelu'r gwasanaeth Cymorth yn y Cartref a ddisgrifiwyd uchod.

	2022-23	2023-24	2024-25
Pecynnau Ailalluogi a liniarodd yr angen am gymorth	67%	67%	56%
Pecynnau Ailalluogi a leihaodd yr angen am gymorth	12%	14%	17%
% y Pecynnau Ailalluogi a wnaeth gynnal yr angen am yr un lefel o gymorth	15%	14%	16%
% y Pecynnau Ailalluogi na wnaeth leihau, cynnal na lliniaru'r angen am gymorth	7%	5%	11%

Er y cafwyd effaith gadarnhaol i'r bobl hynny yr oedd eu hanghenion wedi'u cynnal, bu gostyngiad bach yn y rhai y cafodd eu hanghenion eu lleihau neu eu hosgoi. Mae'r gwasanaeth wedi sylwi bod lefel anghenion y bobl sy'n cael mynediad i gymorth ailalluogi wedi cynyddu.

Llwybrau Gofal wedi Oedi

Mae nifer y bobl a brofodd oedi wrth drosglwyddo gofal ar y llwybr 'rhyddhau i adfer ac asesu' wedi gostwng o 104 yn 2023-24 i 70 yn 2024-25.

Mae'r wybodaeth hon yn gyfrif o bobl ar ddiwrnod cyfrifiad penodol bob mis sy'n dal i fod yn yr ysbyty 48 awr ar ôl i glinigydd benderfynu eu bod yn feddygol addas i ddychwelyd adref. Mae'r gwelliannau hyn wedi'u cyflawni er gwaethaf ein gweithlu'n gweithio ar draws sawl safle ysbyty oherwydd y gwaith mawr sydd ei angen yn Ysbyty Tywysoges Cymru.

Atal: 2025-26 Prif Flaenoriaethau

AR DRAWS GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Gwasanaethau ataliol i gysylltu pobl â chymorth yn y gymuned.

Gwasanaeth Lles Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi atgyfeiriadau a chynnal sgysiau Beth sy'n Bwysig.

Grŵp strategol a grëwyd i gefnogi gofalwyr di-dâl a nodi amcanion o fewn y cynllun gweithredu gofalwyr.

Cynigion gweithgareddau cymunedol ar gyfer gofalwyr a ddatblygwyd gyda Halo ac Awen a phartneriaid trydydd sector.

GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Gweithredu ein strategaethau comisiynu ar gyfer Cymorth i Deuluoedd a Phlant ag anableddau.

Lleihau nifer y plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac aduno plant â'u teuluoedd pryd bynnag y mae'n ddiogel gwneud hynny.

Gweithredu ein strategaeth comisiynu lleoliadau a lleihau ein defnydd o leoliadau heb eu cofrestru.

Parhau ag ailfodelu gwasanaethau maethu fel ein bod yn cadw'r gofalwyr sydd gennym eisoes ac yn recriwtio i'r awdurdod lleol.

GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

Grŵp strategol wedi'i greu i gefnogi gofalwyr di-dâl i wella'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda gofalwyr sy'n oedolion.

Cynnal adolygiad o'r adferiad â chymorth yn y gwasanaeth cymunedol mewn partneriaeth â BIPCTM a rhanddeiliaid eraill.

Partneriaeth ac Integreiddio

Safonau Ansawdd

“Mae partneriaethau **effeithiol** ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy cwbl **integredig** o ansawdd uchel yn llawn i bobl”

“Mae pobl yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r gwaith i ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel **partneriaid cyfartal**”

Ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol

Yn lleol, mae nifer o'n gwasanaethau wedi'u hintegreiddio â phartneriaid allweddol.

Regional Arrangements

Mae gennym nifer o bartneriaethau rhanbarthol sy'n gweithio ar draws y gwasanaeth cyfan.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM), Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a phartneriaid eraill yn y Bartneriaeth Ranbarthol. Nod y [Bartneriaeth Ranbarthol](#) yw gwella gwasanaethau lles, iechyd a gofal cymdeithasol i bobl sy'n byw ar draws y 3 ardal. Dirprwy Arweinydd CBSP yw cadeirydd y Bartneriaeth Ranbarthol.

Er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau effeithiol ar waith i amddiffyn pob person o bob oed rhag niwed, gyda'nartneriaid rhanbarthol rydyn ni'n aelod o [Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg Taf Morgannwg](#).

Trefniadau Lleol

Yn lleol, mae nifer o'n gwasanaethau wedi'u hintegreiddio â phartneriaid allweddol.

Mae Tîm Diogelu Amlasiantaethol Pen-y-bont ar Ogwr (MASH) yn cydleoli ein timau Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Diogelu Oedolion gyda nifer o asiantaethau gan gynnwys Heddlu De Cymru, addysg a'r gwasanaeth prawf i ddarparu dull cydweithredol o ddiogelu ar draws y fwrdeistref. Mae mwy o wybodaeth am MASH Pen-y-bont ar Ogwr ar ein [gwefan](#).

Mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, mae ein Timau Rhwydwaith Clwstwr Integredig yn gweithio ar y cyd â BIPCTM i ddarparu gwasanaethau i bobl yn y gymuned. Mae ein dull integredig ar gyfer oedolion wedi'i seilio ar draws 3 'rhwydwaith'. Mae'r rhain yn dwyn ynghyd ystod o weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol i ddiwallu anghenion pobl â chyflyrau cronig a hirdymor.

Mae pob rhwydwaith yn cwmpasu un o ardaloedd daearyddol y sir sy'n cyd-fynd â'n meddygfeydd teulu. Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn derbyn gofal integredig yn eu cymunedau sy'n gallu addasu wrth i'w hanghenion newid. Mae defnyddio dull amlddisgyblaethol yn golygu y gallwn ymateb i faterion sy'n codi'n gyflym, gan atal pethau rhag gwaethgu. Mae mabwysiadu dull cyfannol o ddiwallu anghenion pobl a gweithio'n agos gyda'u teuluoedd yn sicrhau nad oes angen iddynt ailadrodd eu stori i weithwyr proffesiynol niferus ac yn sicrhau bod ganddynt fwy o ddewis a rheolaeth yn y ffordd y mae eu gofal yn cael ei ddarparu.

NEGES GAN EIN PARTNER:

“Roedd ymddiriedaeth a hyder yn y trefniadau amddiffyn plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn wynebu pwysau sylweddol yn dilyn nifer o farwolaethau plant a dynnodd cryn sylw. Roedd Gwasanaethau Plant Pen-y-bont ar Ogwr yn chwarae rôl ganolog yn yr ymateb hwn ac, yn fy marn i, maen nhw’n haeddu cydnabyddiaeth sylweddol.

Ar ôl nodi bod angen gwella rhai agweddau ar y trefniadau, fe wnaethon nhw ymgysylltu’n llawn ac yn dryloyw â phartneriaid. Er bod data perfformiad yn gallu bod yn fater sensitif yn aml, roedd Pen-y-bont ar Ogwr yn rhagweithiol wrth drafod yn fanwl y meysydd oedd angen sylw. Roedd yr ymagwedd agored hon yn galluogi partneriaid i roi adborth adeiladol a chael dealltwriaeth gynhwysfawr o’r rhyng-ddibyniaethau oedd ar waith.

Yn unol â’r ymrwymiad i ymddiriedaeth a thryloywder, roedd gwaith ymgysylltu cadarnhaol ag ymarferwyr ar draws pob asiantaeth. Roedd y dull cynhwysol hwn yn sicrhau bod heriau’n cael eu trafod yn agored, a bod pob ymarferydd yn cael cyfle i gyfrannu at ddatblygu atebion.

Er bod lle i wella bob amser, a dylen ni ymdrechu’n barhaus i ddarparu’r gwasanaeth gorau posibl i’n preswylwyr mwyaf agored i niwed, mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) y safbwynt yn gyflym bod yn rhaid adeiladu cynnydd o’r fath ar sylfaen o ymddiriedaeth, hyder a dealltwriaeth a rennir o’r rhwystrau, yr heriau a’r nodau strategol.”

Ditectif Uwch-Arolygydd
HEDDLU DE CYMRU

Trefniadau’r Trydydd Sector

Mae ein Gwasanaeth Atal a Lles yn gweithio gyda phartneriaid trydydd sector, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a Halo Leisure i ddarparu gwasanaethau hamdden, diwylliannol a lles. Mae’r rhain yn allweddol i gefnogi gwasanaethau ataliol i blant, pobl ifanc, oedolion, eu teuluoedd a gofalwyr.

Mae ein partneriaid wedi cael blwyddyn lwyddiannus:

- Ym mis Mehefin 2024, cafodd Partneriaeth Byw’n Iach Halo, gan gynnwys y Cyngor a phartneriaid eraill, sgôr ardderchog yn dilyn asesiad gan QUEST. Mae QUEST yn gynllun sicrhau ansawdd ar gyfer y diwydiant chwaraeon a hamdden sy’n mesur safonau cenedlaethol ac yn cynllunio gwasanaethau. Mae derbyn y sgôr hon yn dangos ymrwymiad CBSP a Halo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a sicrhau boddhad cwsmeriaid.
- Enwyd llyfrgelloedd Awen, sy’n cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen mewn partneriaeth â’r Cyngor, yn Llyfrgell Gymreig y Flwyddyn yng Ngwobrau Llyfrau Prydain 2025. Mae’r wobwr yn cydnabod llyfrgelloedd sy’n dod â byd llyfrau i’r gymuned ehangach.



Mynd i'r Afael â'r Bylchau mewn Gofal Cymdeithasol

Ym mis Ebrill 2024, cymeradwyodd y Cabinet dair strategaeth gomisiynu ar draws yr ardaloedd poblogaeth allweddol, sy'n nodi ein meysydd blaenoriaeth a'n bwriadau comisiynu dros y 5 mlynedd nesaf.

Datblygwyd y strategaethau gan ddefnyddio dadansoddiad o Asesiadau Anghenion Poblogaeth ac Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad a gynhyrchwyd yn 2022/23, yn ogystal â data lleol, i nodi tueddiadau allweddol am bobl Pen-y-bont ar Ogwr a'n gwasanaethau. Mae'r data hwn wedi ein galluogi i ddeall sut mae ein gwasanaethau presennol yn perfformio ac i ragweld gofynion gwasanaeth dros y blynyddoedd i ddod.

Roedd rhai o'r meysydd gwaith allweddol a nodwyd yn y strategaethau comisiynu yn cynnwys datblygu Strategaeth Comisiynu Lleoliadau mewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ogystal ag a adolygiad manwl o'r Gwasanaeth Seiliedig ar Lety, ac adolygiad o Gyfleoedd yn ystod y Dydd o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae Strategaeth Comisiynu Lleoliadau Plant a Theuluoedd wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae ein blaenoriaethau allweddol yn cynnwys:

- Gwellu ein Darpariaeth Breswyl
- Cynyddu llety â chymorth ac opsiynau llety â chymorth
- Lleihau ein defnydd preswyl annibynnol cost uchel
- Dileu defnyddio sefydliadau sy'n Gweithredu Heb Gofrestriad

Rydyn ni hefyd wedi dechrau prosiect i ailfodelu ein gwasanaethau maethu. Nodau'r prosiect hwn yw:

- Cynyddu nifer ac amrywiaeth gofalwyr Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr.
- Gwellu'r broses o recriwtio gofalwyr a lleihau'r swyddi sy'n cael eu terfynu.
- Gwellu cymorth, lles a'r prosesau cadw i ofalwyr.

- Lleihau dibyniaeth ar Asiantaethau Maethu Annibynnol a lleoliadau preswyl.
- Ymgorffori llais y gofalwr trwy gyfathrebu cyson a chyflawni'r Siarter Gofalwyr Maeth.

O fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, fe wnaethon ni gwblhau ymarfer mapio llety, y cymeradwywyd ei ganfyddiadau gan y Cabinet ym mis Mawrth 2025. Mae'r meysydd blaenoriaeth allweddol a nodwyd yn cynnwys datblygu gwasanaeth gofal ychwanegol newydd yn ne'r fwrdeistref sirol, ac i sicrhau bod darpariaeth llety gwasanaeth (mewnol ac wedi'i chomisiynu) yn gallu ymateb i gymhlethdodau cynyddol a chyfraddau dementia cynyddol wrth symud ymlaen.

Y camau nesaf allweddol yw cwblhau achosion busnes yn y meysydd blaenoriaeth hyn er mwyn helpu i sicrhau unrhyw gyfalaf a refeniw sydd ar gael i gefnogi'r datblygiadau sydd eu hangen.

Bu adolygiad hefyd o gyfleoedd yn ystod y dydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet, lle nodwyd y meysydd blaenoriaeth canlynol.

- Gwasanaeth blaengar a galluogi, sy'n galluogi pobl i symud ymlaen/gwireddu eu potensial neu symud i'r cam nesaf yn eu gofal
- Galwedigaeth ystyrion i oedolion iau sy'n mynd trwy'r broses bontio ac oedolion o oedran gweithio
- Seibiant gofalwyr a gofal, cymorth a gweithgarwch ystyrion o ansawdd uchel i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth
- Cysylltiad cymunedol i ddiwallu anghenion cymdeithasol pobl ag anghenion gofal a chymorth

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ddatblygu a defnyddio gofal preswyl plant fel y nodir yn yr achos cyfiawnhau busnes a'r Strategaeth Comisiynu Lleoliadau ac yn parhau i wella'r ffordd yr ydym yn cefnogi gofalwyr maeth i wella ein prosesau cadw a recriwtio gofalwyr maeth.



Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Partneriaethau Effeithiol

Cymorth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc

Fe wnaethon ni ddatblygu cynllun gweithredu amlasiantaethol gyda BIPCTM a chynghorau bwrdeistref sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful i wella cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.

Mae hyn wedi arwain at well cydweithio rhwng y bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol. Rydyn ni'n datblygu dull ar y cyd sy'n sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael mynediad i gymorth lles emosiynol o'r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir. Bydd y dull rhanbarthol hwn yn cael ei alw'n SPACE a'r bwriad yw iddo fynd yn fyw ym mis Ionawr 2026.

ASTUDIAETH ACHOS:

Gweithio gydag Iechyd i Ddiogelu rhag Niwed

Cafodd plentyn B ei dderbyn i'r ysbyty ar ôl niweidio eu hunain. Roedd eu rhiant yn bryderus iawn am sut i ddiogelu B rhag unrhyw niwed gyda phryderon y byddai ymgais bellach yn cael ei wneud i niweidio eu hunain eto.

Gweithiodd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'i gilydd i gynnal cyfarfodydd rheoli risg a bod yn glir ynghylch pa risgiau oedd yn amlwg a sut yr oedden nhw'n cael eu rheoli. Fe wnaeth Gwasanaethau Iechyd amlinellu'n glir eu hasesiad risg a'u rhesymeg dros benderfynu mai cymorth cymunedol oedd y ffordd orau o weithredu i B.

Roedd yn sefyllfa bryderus, ond gweithiodd partneriaid yn dda gyda'i gilydd gyda rolau a chyfrifoldebau clir. Mae B yn aros gydag aelod o'r teulu ac yn cael eu cefnogi gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Cymdeithasol i wella o'u profiadau a chael eu diogelu rhag niwed.

Digartrefedd

Rydyn ni wedi datblygu cynlluniau i wella'r ymateb i bobl sy'n profi digartrefedd ar ôl gadael gofal. Gan weithio'n agos gyda'n partneriaid tai, rydyn ni'n bwriadu datblygu protocol ar y cyd i fynd i'r afael â'r materion hyn a cheisio eu hatal rhag digwydd yn y dyfodol.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn datblygu opsiynau llety â chymorth ychwanegol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal i sicrhau proses bontio hwylus i blant a phobl ifanc wrth ddod yn oedolion.

Pobl fel Partneriaid Cyfartal

Strategaeth Gomisiynu'r Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a Phobl Ifanc

Oherwydd y galw cynyddol ar ein gwasanaethau statudol, fe wnaeth ein partner gwella adolygu gwasanaethau ac anghenion lleol presennol.

Fe nodwyd meysydd ffocws clir i wella gwasanaethau ataliol a lleddfu'r pwysau ar gymorth statudol a sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael mynediad i'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, datblygwyd Strategaeth Gomisiynu i Deuluoedd sy'n nodi'n glir 6 maes allweddol ar gyfer Cymorth Cynnar, Ar Ffiniau Gofal ac asiantaethau partner i ganolbwyntio arnynt dros y 2 flynedd nesaf.

STRATEGAETH GOMISIYNU I DEULUOEDD PRIF FLAENORIAETHAU

1. GWASANAETHAU WEDI'U SYMLEIDDIO Integreiddio Cymorth Cynnar, MASH a Gwaith Cymdeithasol mewn un drws ffrynt Datblygu llwybrau atgyfeirio clir a llwybrau mynediad, asesu a chynllunio wedi'u halinio Hyrwyddo dull "dim drws anghywir" i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol	2. CYMORTH MWY DWYS WEDI'I DARGEDU Ehangu gwasanaethau Haen 3 i deuluoedd ag anghenion cymhleth Rhoi'r sgiliau i staff Cymorth i Deuluoedd fel y gallan nhw ddarparu ymyrraeth barhaus effeithiol iawn Lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol trwy gynnig cymorth dwys cynharach	3. DIWYGIO CYMORTH RHIANTA Symud o raglenni rhianta cyffredinol i ymyriadau wedi'u targedu, ar sail tystiolaeth Cynyddu cymorth dull hyfforddi un-i-un i deuluoedd mewn perygl Comisiynu modelau a phartneriaid newydd i ddarparu cymorth dwys
4. CYMORTH I BLANT HŶN A PHOBL IFANC Mynd i'r afael â'r galw cynyddol sy'n gysylltiedig â gwrthdaro teuluol, camfanteisio a gwaharddiadau o'r ysgol Datblygu cynigion cymorth hyblyg ac ymatebol, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau Adeiladu capasiti i leihau dechrau derbyn gofal heb ei gynllunio i bobl ifanc yn eu harddegau	5. CYMORTH I BLANT NIWROAMRYWIOL AC ANGHENION IECHYD MEDDWL Cydweithio â'r GIG i fuddsoddi mewn cymorth ar gyfer anghenion niwroddatblygiadol ac emosiynol cymhleth Create intensive family support Creu llwybrau cymorth dwys i deuluoedd wedi'u teilwra i'r bobl ifanc hynpeople Lleihau'r pwysau ar deuluoedd ac atal chwalfa	6. PARTNERIAETHAU TEULUOL A MODEL YMARFER Ymgorffori dulliau sy'n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar gryfderau ac Arwyddion Diogelwch Hyrwyddo gwaith partneriaeth gwirioneddol gyda theuluoedd, gan leihau gorddibyniaeth ar wasanaethau Cryfhau dealltwriaeth o'r system gymorth leol ymhlith staff

Bydd y strategaeth yn cefnogi cydweithio â chymunedau a sefydliadau lleol i adeiladu rhwydwaith ehangach o gymorth i deuluoedd, mewn ffyrdd sy'n fwy cyfarwydd ac wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau eu hunain. Rydyn ni'n dechrau gweld perthnasoedd cryfach rhwng gwasanaethau lleol, grwpiau gwirfoddol a'r teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi.

Fforwm Llais Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Llais Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn fforwm ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a phobl sy'n gadael gofal rhwng 12 a 21 oed. Mae'n gweithredu fel bwrdd seinio i'r Cyngor a'i bartneriaid ar gyfer gwella gwasanaethau ar bob mater ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a phobl sy'n gadael gofal.

Mae'r fforwm yn cael ei hwyluso gan TGP Cymru sy'n cael ei gomisiynu gennym i ddarparu cymorth cyfranogiad annibynnol arbenigol ac i hyrwyddo barn a hawliau ein plant a'n pobl ifanc. Maen nhw'n cael eu cefnogi gan ein Swyddog Rhianta a Chyfranogiad Corfforaethol.

Mae'r fforwm hefyd yn cydweithio â Chomisiynydd Plant Cymru, Voices from Care Cymru, Plant yng Nghymru, Maeth Cymru a Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o fentrau i wella bywydau plant mewn gofal. Mae'r fforwm yn cael ei werthfawrogi gan ein pobl ifanc, ein gofawyr a'n staff.



Er mwyn deall ein heffaith dros y flwyddyn, fe ofynnwn ni tri chwestiwn pwysig i'n Fforwm Ieuenctid.

Beth sydd wedi mynd yn dda gyda phobl neu bethau sydd wedi digwydd?

- Gweithwyr Cymdeithasol, Cyngorwyr Personol a Gofawyr Maeth cefnogol
- Teimlo bod rhywun yn gwrando arnoch
- Cymorth i ymgymryd â gweithgareddau sy'n bwysig

Beth sydd ddim wedi mynd mor dda?

- Teimlo bod rheolau gwahanol ar waith i ni o'n cymharu â phobl ifanc eraill
- Teimlo dan bwysau i dderbyn cymorth
- Teimlo nad ydyn ni'n cael ein derbyn gan gyfoedion

Sut mae'r cymorth yn gallu cael ei wella a pha syniadau/atebion sydd gennych?

- Llai o firocratiaeth i leihau'r stigma sydd ynghlwm wrth fod â phrofiad o fod mewn gofal
- Mwy o ddealltwriaeth nad oes rhaid i ni aros yn yr ardal leol
- Peidio â chyflwyno rhywun fel y "plentyn newydd" yn yr ysgol a sicrhau bod y cymorth addysgol cywir ar waith
- Fforwm rhanbarthol i roi cyfleoedd i gwrdd â phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- Hyrwyddwyr eiriolaeth mewn ysgolion/timau i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwybod eu hawl i eiriolaeth

Gofal Cymdeithasol Oedolion

Partneriaethau Effeithiol

Rhyddhau o'r Ysbyty

Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd rydyn ni wedi gwella sut rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i reoli'r broses o ryddhau o ysbytai yn fwy effeithiol. Nod y cynllun oedd cefnogi pobl i wella ac adennill sgiliau i leihau prosesau rhyddhau gwael sy'n arwain at ddychwelyd i'r ysbyty neu sy'n gallu arwain at rywun yn colli eu hannibyniaeth gartref.

Fe wnaethon ni gyflawni'r nod hwn trwy:

- weithio o fewn y fframwaith a'r amserlenni Rhyddhau i Adfer ac Asesu (RhAA).
- cyflwyno capasiti Lefel 4 Gofal Cymunedol Gwell yn raddol o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol.
- cydweithio â'r Bartneriaeth Ranbarthol i ddatblygu a gweithredu'r model gorau posibl ar gyfer gwasanaethau cymunedol
- defnyddio cynllun uwchgyfeirio'r awdurdod lleol i hwyluso gweithgarwch system gyfan â ffocws er mwyn cynorthwyo BIPCTM i wella eu sefyllfa ar adegau o bwysau uchel.

BETH YW GOFAL CYMUNEDOL UWCH LEFEL 4?

Mae'n fodel sy'n ein helpu i weithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi...

- dull iechyd a gofal cymdeithasol integredig i osgoi argyfwng a chynnydd mewn anghenion iechyd a gofal lle bo hynny'n bosibl
- gwasanaethau cymunedol i hyrwyddo adferiad cyflymach o salwch, atal derbyniadau aciwt diangen i'r ysbyty, cefnogi prosesau rhyddhau amserol a sicrhau cymaint o annibyniaeth â phosibl
- cymorth cam i fyny i atal derbyn i'r ysbyty neu gymorth cam i lawr i alluogi pobl i adael yr ysbyty yn gynnar, wrth barhau i dderbyn y driniaeth, y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt
- pobl i dderbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain neu eu lle preswyllo arferol
- defnyddio cymysgedd o dechnoleg a chymorth wyneb yn wyneb, ymgynghori o bell, monitro o bell a/neu ymyrraeth o bell.

Tai

Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â landlord cymdeithasol cofrestredig a'r bwrdd iechyd i ddatblygu amrywiaeth o opsiynau tai â chymorth yn agos at Ganolfan Les fel rhan o ddatblygiad newydd.

Mae hyn yn cynnwys datblygu trefniant cymorth craidd a chlwestwr a fydd yn darparu cymorth hyblyg i denantiaid sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r opsiynau llety yn cynnwys byw â chymorth a chymorth wedi'i dargedu mewn fflatiau un neu ddwy ystafell wely. Mae achos busnes wedi'i gynhyrchu sy'n esbonio sut bydd y trefniant craidd a chlwestwr yn gweithredu a sut bydd adnoddau staffio yn cael eu defnyddio i helpu pobl i fyw'n annibynnol.

Y Grŵp Gweithredol Iechyd Meddwl

Mae Grŵp Gweithredol y Mesur Iechyd Meddwl (GGMIM) yn cwrdd unwaith y mis i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn bodloni'r gofynion statudol a amlinellir ym Mesur y Ddeddf Iechyd Meddwl (2010) a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n enghraifft o waith partneriaeth effeithiol gydag awdurdodau lleol cyfagos a'n partneriaid gofal iechyd.

Ein nod yw gwella a chynnig gwasanaethau o ansawdd uchel i'r rhai sydd angen gofal iechyd meddwl. Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i wneud gofal yn fwy cydlynol a phersonol fel y bydd yn haws cael y cymorth cywir pan fo angen. Mae'r grŵp yn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau, cyfleoedd hyfforddi, a chyfathrebu agored rhwng partneriaid.

Cefnogi Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth a Niwroamrywiaeth

Rydyn ni'n bartneriaid allweddol yn y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth Ranbarthol, gan arwain ar agenda uchelgeisiol i wella mynediad, cynhwysiant a chymorth i oedolion Niwrowahanol.

Mae cylch gwaith y grŵp yn cynnwys iechyd meddwl a lles emosiynol, hamdden a chymorth cymunedol, system cyfiawnder troseddol a chamddefnyddio sylweddau, aros yn ddiogel, cyflogaeth a thai.

Y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau

Mae gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael eu darparu mewn 4 haen, sef:

- **Haen 1:** Atal a Nodi/Ymyrryd yn Gynnar. Mae hyn yn cynnwys ystod o ymyriadau sy'n ymwneud â chyffuriau sy'n gallu cael eu cynnig gan ddarparwyr generig, gan ddibynnu ar eu cymhwysedd a'u trefniadau partneriaeth gyda gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol.
- **Haen 2:** Gwasanaethau Cymorth a Chynghori. Mae ymyriadau'n cael eu cynnig gan ddarparwyr camddefnyddio sylweddau arbenigol ac maen nhw'n cynnwys ystod o ymyriadau lleihau niwed, ac ymyriadau sy'n ymgysylltu â phobl, yn eu cadw ac yn eu cefnogi mewn triniaeth. Mae cymorth i deuluoedd a phobl gysylltiedig eraill hefyd yn cael eu hystyried yn ymyriadau haen 2.
- **Haen 3:** Gwasanaethau Triniaeth Arbenigol. Darpariaethau arbenigol gan gynnwys yr holl swyddogaethau clinigol, rhaglenni presgripsiynu amgen a dadwenwyno cymunedol.
- **Haen 4:** Mae gwasanaethau yn darparu rhaglenni Dadwenwyno ac Adsefydlu Preswyl i gleifion mewnol sy'n camddefnyddio sylweddau.

Mae gwasanaethau Haen 1 a 2 yn cael eu darparu gan grŵp sector annibynnol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwasanaethau Haen 3 yn bartneriaeth rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol, nyrsio a chlinigol. Mae'r holl bartneriaid hyn wedi'u lleoli yn yr un adeilad ac yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig ystod o wasanaethau camddefnyddio sylweddau o ganolfan sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Pobl fel Partneriaid Cyfartal

Panel Cyfleoedd Cymdeithasol

Mae panel wedi'i ddatblygu i gefnogi pobl i gael mynediad i'r gwasanaeth ataliol sy'n addas iddyn nhw, lleihau dyblygu a gwella mynediad i gyfleoedd cymdeithasol.

Mae'r panel yn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch mynediad i weithgareddau yn deg, yn dryloyw ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r panel yn helpu ymarferwyr i gynnig mwy o'r cymorth cywir, ar sail yr hyn sydd ei angen ar bobl mewn gwirionedd. Mae'n cael gwared ar ddyblygu ac yn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gysylltu ag eraill a theimlo eu bod wedi'u cynnwys, ni waeth ble maen nhw'n byw neu bwy sy'n eu helpu.

Mae'r panel wedi ein helpu i ddefnyddio gwasanaethau'n fwy effeithiol trwy gyfuno gwasanaethau cymorth gofal cymdeithasol, iechyd a chymunedol. Mae hefyd yn ein helpu i ganolbwyntio ar anghenion penodol gwahanol ardaloedd yn y fwrdeistref, yn enwedig lle mae pobl yn wynebu mwy o heriau megis iechyd gwael, tlodi, neu fynediad cyfyngedig i wasanaethau.

ASTUDIAETH ACHOS:

Panel Cyfleoedd Cymdeithasol

Mae oedolyn C yn byw gyda dementia. Maen nhw'n hoffi bod yn actif sy'n gallu arwain at eu bod yn flinedig a chynyddu eu risg o gwmpyadau. Mae C yn araf i ymateb i gyfarwyddiadau aelodau'r teulu ac yn mynd yn eiriol ymosodol tuag at eu teulu, sy'n cael effaith arnyn nhw wrth gynnal eu rôl fel gofalcwyr.

Cafodd achos C ei gyflwyno i'r panel cyfleoedd cymdeithasol i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau lles, sef bod yn weithgar yn y gymuned. Rhoddwyd cymorth i C fynychu grwpiau sy'n seiliedig ar weithgareddau mewn modd diogel. Bu'r Cydlynnydd Cymunedol Lleol, Halo a'r Therapydd Galwedigaethol yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i grwpiau addas ac mae Technegydd Therapi Galwedigaethol yn cefnogi C i fynychu.

Er mwyn cynyddu cyfleoedd cymdeithasol ymhellach, gwnaed cais i banel i C fynychu gwasanaethau dydd yn y Gwasanaeth Dementia Integredig. Cafodd y cais ei gymeradwyo ac mae C yn mynychu gwasanaethau dydd ac yn mwynhau gweithgareddau grŵp ac ymgysylltu ag eraill.

Mae'r cymorth a roddwyd wedi galluogi C i gyflawni eu canlyniadau trwy gynnal eu diddordebau, wrth sicrhau eu diogelwch a'u lles. Mae gofalcwyr C hefyd yn cael eu cefnogi i gael seibiant o'u rôl ofalu, gan arwain at amser i wella a gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r cymorth a roddwyd i C wedi dod ag ymdeimlad o ryddhad a sicrwydd i'w gofalcwyr, gan eu galluogi i barhau yn eu rôl ofalu.

Gwella Cymorth Synhwyrdd

Mae ein tîm synhwyrdd wedi gweithio i wella cymorth synhwyrdd, gan weithio gyda grwpiau ar draws y fwrdeistref yn ogystal ag ymweld â phobl gartref i glywed eu barn. Nododd y gwaith hwn y canlynol:

- Trwy fod yn bresennol mewn grwpiau, mae'r tîm yn gallu darparu gwybodaeth a chynghor i grŵp ehangach o bobl, gan wneud pobl yn ymwybodol o'r ystod eang o gymorth sydd ar gael iddynt.
- Mae dangos sut i ddefnyddio neu newid offer arbenigol yn y grwpiau hyn neu yn ystod ymweliadau yn lleihau'r angen i bobl gysylltu â'n gwasanaethau.
- Mae gweithio gyda theuluoedd a gofalywyr yn sicrhau eu bod hefyd yn cael eu cefnogi, er enghraifft, eu cyfeirio at sefydliadau perthnasol megis y Ganolfan Gofalwyr.
- Rydyn ni'n gallu creu cyfleoedd "cyfeillio" i bobl sydd newydd gael diagnosis ac sydd heb hyder i fynychu grwpiau. Mae'r tîm yn mynd gyda nhw i'r grŵp nes iddynt ddod yn hyderus wrth fynychu ar eu pennau eu hunain.

Rydyn ni'n gwneud cysylltiadau rheolaidd rhwng grwpiau a gwasanaethau a sefydliadau eraill, er enghraifft Atal Cwmpiaidau, Cyngor Cymru i'r Deillion, Swyddog Cyswllt Clinig Llygaid a'r Gymdeithas Alzheimer.

Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr yn sefydliad trydydd sector sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Maen nhw'n grymuso pobl maen nhw'n eu cefnogi i ddeall ac arfer eu hawliau, cael mynediad i wasanaethau a chymryd rhan lawn yn eu cymunedau. Mae rhagor o wybodaeth am Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr ar gael yma.

Mae gennym drefniadau partneriaeth cryf ar waith gyda Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr ac i ddeall a oedden ni wedi cael effaith yn ystod y flwyddyn ac fe wnaethon ni gwrrdd â chynrychiolwyr o Pobl yn Gyntaf – staff a'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau – i ofyn 3 chwestiwn.

Beth sydd wedi mynd yn dda gyda'r bobl sy'n eich cefnogi chi neu'r pethau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

- Dw i'n teimlo bod staff a rheolwyr yn fy nghefnogi ac yn barod i helpu
- Dw i'n cael fy nghefnogi i fynychu cyfarfodydd Pobl yn Gyntaf
- Dw i'n teimlo bod pobl yn gwrrando arna i nawr a bod anghenion cymorth yn cael eu diwallu
- Mae BAVO yn darparu cynghor, cymorth a gweithgareddau o fewn y gymuned
- Cymorth gan y Gweithiwr Awtistiaeth o fewn y gwasanaeth ARC

Beth sydd ddim wedi mynd yn dda gyda'r bobl sy'n eich cefnogi chi neu'r pethau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

- Diffyg gwybodaeth am ymyrryd mewn argyfwng
- Dyw gweithwyr dynodedig ddim bob amser yn ymwybodol o gymorth eiriolaeth
- Cymorth i'r gymuned LHDTC+
- Cyfathrebu â'r gweithiwr dynodedig
- Hyblygrwydd y cymorth sydd ar gael

Sut mae'r cymorth yn gallu cael ei wella?

- Chwalu rhwystrau ar gyfer cymorth ataliol amserol
- Hyfforddiant eiriolaeth/ymwybyddiaeth i weithwyr
- Cynllunio ymlaen llaw ar gyfer digwyddiadau bywyd allweddol megis newid gweithiwr neu symud i lety newydd
- Cyllid i gefnogi anghenion addysgol/hyfforddiant
- Argaeledd trafndiaeth i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol
- Gwell cyfathrebu â'r gweithiwr dynodedig

Partneriaeth ac Integreiddio: Blaenoriaethau Allweddol 2025-26

AR DRAWS GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Gweithio mewn partneriaeth â BAVO i ddiwallu anghenion pobl trwy'r trydydd sector a llyw-wyr i gael sgysiau "Beth sy'n Bwysig" i gefnogi pobl i gysylltu â chymunedau ac i fod yn glir am y gwahanol anghenion y gellir eu diwallu gan lyw-wyr a chydlynwyr cymunedol lleol.

Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau rhwydweithiau'r 3ydd sector gan gynnwys grŵp rhwydwaith cynhwysol Pen-y-bont ar Ogwr a grŵp rhwydwaith gofaluwr ifanc Pen-y-bont ar Ogwr i ddatblygu cyfleoedd newydd.

Gweithio gyda Cyngorau Tref a Chymuned i gefnogi cyfleoedd cyffredinol Heini am Oes yn ystod gwyliau ysgol.

Ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch blaenoriaethau a meysydd ffocws a nodwyd o fewn strategaeth Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Hybiau Diwylliant a Chymunedol ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Adolygu ein trefniadau Gwasanaethau Cymdeithasol y tu allan i oriau.

Adolygu model gweithredu plant ag anableddau a phontio.

GWASANAETHAU PLANT A THEULUEDD

Gweithredu'r canllawiau trothwy gyda phartneriaid fel ein bod i gyd yn glir am ein rolau a'n cyfrifoldebau a sut i gael mynediad i wasanaethau.

Datblygu dull cytûn o hyfforddiant ac ymarfer aml-asiantaethol.

GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

Parhau i weithredu ein cynllun strategol 3 blynedd.



Lles

Safonau Ansawdd

“Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a’u **diogelu** rhag cam-drin ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed”

“Mae pobl yn cael eu cefnogi i fynd ati i **reoli eu lles** a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a **byw’n annibynnol** cyhyd â phosibl”

Gwasanaethau Plant a Theulu

Mae Pobl yn Cael eu Hamddiffyn a'u Diogelu

Profwyd cynnydd o 24% yn nifer y cysylltiadau â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Ond hyd yn oed gyda mwy o bobl yn cysylltu, mae llai o blant a phobl ifanc bellach yn mynd trwy asesiadau ffurfiol, ac mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant neu mewn gofal wedi lleihau.

Dim Drws Anghywir

Rydyn ni'n gweithio i sicrhau dull "Dim Drws Anghywir" ar draws y gwasanaeth. Mae'n dod â gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, heb oedi i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu.

Rydyn ni'n ymateb yn gyflym pan fydd pryder yn cael ei godi. Mae pob atgyfeiriad yn cael ei asesu o fewn 24 awr ac rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid i leihau pryder a chael dealltwriaeth a rennir o drothwyon risg. I'r rhai sydd angen cymorth, mae gwasanaethau cymorth cynnar yn gallu darparu hyn.

Mae'r dull "Arwyddion Diogelwch" yn dod yn rhan o ymarfer pob dydd. I gefnogi hyn, mae gennym hyrwyddwyr asiantaeth bartner Arwyddion Diogelwch ac rydyn ni'n cynnal sesiynau myfyriol ac ôl-drafodaeth achosion i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut rydyn ni'n rheoli risg ac yn gweithredu trothwyon.

Atal ac Ymateb i Gamfanteisio


Mae panel camfanteisio lleol ar waith gennym ers mis Tachwedd 2024. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni gwblhau camau i sicrhau bod gennym yr offer cywir ar waith i atal ac ymateb i achosion o gamfanteisio ar blant.

- Gweithdai i lywio cynllun datblygu aml-asiantaethol lleol.
- Mae'r cynllun bellach ar waith ac yn nodi camau gweithredu clir a strwythur llywodraethu i gefnogi gweithredu'r strategaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf i adeiladu ar y gwaith yr ydyn ni wedi'i wneud ym Mhen-y-bont ar Ogwr a sicrhau bod yr holl brosesau newydd wedi'u hymgorffori erbyn mis Medi 2025.
- Er mwyn cryfhau cydgynhyrchu, rydyn ni wedi uwchsgilio ein gweithlu a'n partneriaid aml-asiantaethol ynghylch camfanteisio.

Mae gennym offeryn sgrinio camfanteisio sy'n cael ei ddefnyddio ar draws timau i nodi risgiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio. Mae uwch ymarferydd ein gwasanaeth camfanteisio wedi darparu hyfforddiant i dimau ar draws Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Rydyn ni wedi gweithio'n agos gydag ysgolion, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a Heddlu De Cymru i nodi meysydd sy'n peri pryder sy'n gysylltiedig â chamfanteisio ac wedi darparu ymyriadau yn y meysydd hynny.

Ymholiadau Diogelu Plant

Mae'r gostyngiad yn nifer yr ymholiadau diogelu yn ganlyniad uniongyrchol i fwy o sefydlogrwydd yn ein gweithlu a'r newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud mewn cyfarfodydd strategaeth a gwneud penderfyniadau. Rydyn ni bellach yn gwneud ymatebion mwy cymesur i gefnogi plant a theuluoedd yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.



Os nad yw asiantaeth bartner yn cytuno â'r penderfyniad mewn cyfarfod strategaeth amddiffyn plant, rydyn ni'n parhau i hyrwyddo'r broses uwchgyfeirio pryderon rhanbarthol (CRISP). Yn ystod y flwyddyn nid ydyn ni wedi derbyn unrhyw CRISPau o ganlyniad i wneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd strategaeth.


Rydyn ni'n parhau i ymgymryd â gwaith gydag asiantaethau partner i gefnogi eu dealltwriaeth o'n model ymarfer ac wedi gwahodd partneriaid i fynychu'r

sesiynau myfyriol rheolaidd i ystyried gweithredu'r Gweithdrefnau Diogelu, a'r effaith ar deuluoedd a dysgu.

Er mwyn cefnogi gweithwyr proffesiynol ymhellach, gyda dealltwriaeth a rennir, rydym wedi sefydlu llinell ffôn ymgynghori. Mae'r llinell hon yn galluogi gweithwyr proffesiynol i drafod achosion, cael cyngor a chynllunio'r camau nesaf yn gyflym ac yn ddiogel ond nid yw'n disodli'r prosesau diogelu arferol sydd angen eu dilyn o hyd.

Cofrestriadau Amddiffyn Plant

Mae nifer y plant a ychwanegwyd at y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn wedi gostwng 55% o'i gymharu â'r flwyddyn glaeorol.



Mae'r duedd hon yn adlewyrchu gostyngiad parhaus o'r nifer uchel ar y gofrestr ym mis Mawrth 2023 ac mae'n ganlyniad i wneud penderfyniadau mwy cymesur ynghylch diogelwch plant yn ogystal â gweithio'n well gyda gwasanaethau cymorth cynnar. Mae nifery plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi gostwng o 270 ym mis Mawrth 2023 i 75 ym mis


Mawrth 2025.

Rydyn ni'n parhau i leihau nifer y plant sydd wedi'u cofrestru ac er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch ein penderfyniadau, rydyn ni wedi cwblhau archwiliad a chomisiynu adolygiad annibynnol ac yn rhannu'r canlyniadau â'n partneriaid.



Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal

Ym mis Tachwedd 2024 fe wnaethon ni adnewyddu ein strategaeth leihau i leihau nifer y plant â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar atal, cefnogi teuluoedd ac aduno sy'n ein galluogi i weithio gyda theuluoedd i adeiladu cysylltiadau oes hir sydd, lle bo hynny'n bosibl, yn galluogi plant â phrofiad o fod mewn gofal i ddychwelyd adref yn ddiogel.



Dangosir effeithiolrwydd y strategaeth gan y gostyngiad 10% yn nifer y plant â phrofiad o fod mewn gofal, gan ostwng o 370 ym mis Mawrth 2024 i 333 ym mis Mawrth 2025. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2025-26.

Cefnogi Pobl i Reoli eu Lles

Cwblhaodd gwasanaethau Cymorth Cynnar ac Ar Ffiniau Gofal y broses o symud i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ym mis Gorffennaf 2024, ac erbyn dechrau 2025, roedden nhw wedi bod yn gweithio gyda'r gwasanaethau statudol ehangach am chwe mis, gan roi amser i ymgartrefu'n llawn.

Felly, roedd y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025 yn llinell amser dda i ddadansoddi a gwerthuso effaith sut roedd y gwasanaeth wedi cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a oedd, fel y nodwyd yn y dadansoddiad, yn hynod gadarnhaol.

DADANSODDIAD O GYMORTH CYNNAR: IONAWR I FAWRTH 2025

ROEDD DATA GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL YN DANGOS GALW CYNYDDOL AM WASANAETHAU CYMORTH CYNNAR A MWY O YMGSYLLTU Â NHW:

237 o atgyfeiriadau wedi'u derbyn, sef cynnydd o **23%**

152 o asesiadau wedi'u cwblhau, sef cynnydd o **13%**

CANLYNIADAU A ADRODDWYD

96% o deuluoedd yn teimlo'n fwy abl i wneud newidiadau cadarnhaol o ran eu ffordd o fyw ac ymddygiad

94% o deuluoedd wedi nodi gwell gwydnwch teuluol

91% o unigolion wedi nodi gwell lles emosiynol a pherthnasoedd teuluol

88% o rieni yn teimlo'n fwy hyderus wrth gefnogi datblygiad eu plentyn

87% o unigolion wedi nodi gwell gwydnwch personol

Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae Pobl yn Cael eu Hamddiffyn a'u Diogelu

Rydyn ni wedi sefydlu nifer o baneli a grwpiau i gefnogi ein dyletswyddau diogelu statudol.

Panel Partneriaeth Achosion Cymhleth

Mae'r Panel Partneriaeth Achosion Cymhleth yn fecanwaith amlasiantaethol ar gyfer gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu unigolion yn y gymuned sy'n dangos lefel sylweddol o risg iddyn nhw eu hunain neu eraill.

Nod y bartneriaeth yw darparu mecanwaith i asiantaethau partner benderfynu a chytuno ar y ffordd orau o amddiffyn unigolion a'r cyhoedd mewn modd cydlynol.

Panel Hunanesgeulustod

Mae'r Panel Hunanesgeulustod yn ddull amlasiantaethol o amddiffyn a lliniaru risg i oedolion sy'n esgeuluso eu hiechyd a'u lles.

Mae'r panel yn berthnasol i oedolion yn unig. Fodd bynnag, lle mae plant mewn perygl o niwed oherwydd hunanesgeulustod yr oedolyn, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae'r protocol yn cael ei gychwyn mewn achosion o hunanesgeulustod cymhleth lle mae niwed difrifol wedi digwydd neu sy'n debygol o ddigwydd ac mae prosesau rheoli achosion presennol wedi methu â chyflawni unrhyw ostyngiad mewn risg.

Grŵp Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio:

Mae'r grŵp hwn wedi'i sefydlu i wella atal, ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch atal hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith unigolion ac asiantaethau sy'n aml yn dod ar draws pobl sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio.

Mae'r grŵp yn cynnwys partneriaid gan gynnwys ieuchyd, gofal cymdeithasol, addysg, yr amgylchedd, tai, cyflogaeth, yr heddlu, y system cyfiawnder troseddol, trafnidiaeth a'r trydydd sector.

Mae'r grŵp wedi datblygu llwybr clir ar gyfer cefnogi pryderon ac atgyfeiriadau yn y maes hwn.

Carchar y Parc

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud gyda CEF/ STI y Parc i sicrhau bod y carcharorion yn cael eu diogelu'n barhaus. Mae hyn wedi dechrau gyda meithrin perthnasoedd gwaith gadarnhaol â'r tîm diogelwch a chydweithwyr ehangach yn y carchar. Cynhaliwyd adolygiad o'r prosesau diogelu mewnol i sicrhau aliniad â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

Cafwyd adolygiad pellach o'r hyfforddiant cyflawni a diogelu i sicrhau ymarfer effeithiol a chydymffurfio â'r gweithdrefnau. Darparwyd hyfforddiant diogelu a phryderon proffesiynol i'r uwch staff gweithredol a rheoli ynghyd â rheolwyr adain i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau statudol. Roedd yr ymateb i hyn yn gadarnhaol ac mae diogelu bellach yn rhan o sefydlu pob recriwt newydd ynghyd â hyfforddiant parhaus i staff ehangach y carchar yn ystod 'cyfyngiadau symud dydd Mercher'.

Yn dilyn cynnydd yn nifer y marwolaethau o fewn y Parc, mae amrywiaeth o gynlluniau wedi'u cyflwyno, gan gynnwys fforwm i ystyried anghenion y rhai sydd wedi gwneud ymgais sylweddol i'w lladd eu hunain. Mae hyn wedi tynnu sylw at y ffaith bod mecanweithiau cadarnhaol ar waith yn y carchar i ddiogelu a chefnogi carcharorion.


Cynhaliodd Arolygiaeth Carchardai EF yr arolygiad ym mis Ionawr a oedd yn gadarnhaol iawn o'r tîm gwaith cymdeithasol gan ddweud, 'cynhaliodd y cyngor lleol asesiadau gofal cymdeithasol amserol ac roedd angehnion yn cael eu nodi a'u diwallu'n briodol.'

Dros y 12 mis diwethaf, bu gwelliannau sylweddol o fewn y perthnasoedd gwaith a'r ymarfer diogelu.



Ymholiadau Diogelu Oedolion

Er mwyn lleihau nifer yr atgyfeiriadau lle ar sail canlyniadau ystyrir nad yw person mewn perygl, fe weithredon ni broses ymgynghori newydd gyda phartneriaid allweddol. Mae'r broses yn annog gweithwyr proffesiynol, sy'n pryderu am unigolyn, i gysylltu â'r tîm i gael sgwrs cyn penderfynu a oes angen gwneud atgyfeiriad Oedolyn mewn Perygl (OMP). Rydyn ni'n ymateb i bob ymgynghoriad o fewn 24 awr.



Mae'r graff uchod yn dangos effaith yr ymgynghoriadau hyn gyda gostyngiad o 23% yn nifer yr adroddiadau a wnaed i'r Tîm Diogelu Oedolion dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r nifer sy'n symud ymlaen i ymchwiliad yn briodol. Y rheswm nad yw rhai'n symud ymlaen yw oherwydd bod y gwasanaeth yn fodlon bod camau priodol eisoes ar waith neu nad yw'r person yn rhoi ei ganiatâd i symud ymlaen.

Er mwyn cryfhau'r trefniadau ymhellach, mae cyfarfod neilltuo dyddiol wedi'i sefydlu i drafod atgyfeiriadau a chytuno ar y camau nesaf ac mae system fonitro wythnosol hefyd wedi'i chyflwyno i uwchgyfeirio materion. Y camau nesaf yw cwblhau ymchwiliad manwl i ddod o hyd i achosion oedi o fewn y system.

Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid

Yn 2024-25 cawson ni 557 o atgyfeiriadau ar gyfer asesiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid i Ofal Cymdeithasol i Oedolion, cynnydd 6% o 524 y flwyddyn flaenorol. Ar 31 Mawrth 2025, roedd 21 o bobl yn aros am asesiad, sydd yr un fath â 31 Mawrth 2024, gyda 22 ar y rhestr aros.

Er mwyn cryfhau ein prosesau ymhellach, ym mis Ionawr 2025, derbyniodd 27 aelod o staff (24 o Ofal Cymdeithasol i Oedolion a 3 o Wasanaethau Plant a Theuluoedd) hyfforddiant Aseswyr Budd Pennaf. Mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion mae'r staff hyn bellach yn cwblhau un asesiad bob tri mis sy'n ein helpu i reoli ein rhestr aros.

Cefnogi Pobl i Reoli eu Lles

Gwasanaeth Cymorth Dementia Integredig

Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi pobl ag amhariad gwybyddol a'u teuluoedd i helpu i adeiladu gwydnwch a chynnal annibyniaeth. Mae gan y darparwr gwasanaeth wybodaeth helaeth a phrofiad â thystiolaeth o ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar y person, datblygu strategaethau a thechnegau i gefnogi byw'n annibynnol, darparu gwybodaeth a chyfeirio.

Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol trwy nodi a chydabod eu cryfderau a'u galluoedd eu hunain a'u rhwydweithiau personol, cymunedol a chymdeithasol. Mae'n eu helpu i wneud y mwyaf o'r cryfderau hyn i'w galluogi i gyflawni eu canlyniadau a ddymunir, a thrwy hynny ddiwallu eu hanghenion a gwella neu gynnal eu lles.

Y Tîm Diogelu

Mae'r tîm diogelu'n defnyddio'r model sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae'r cydlynwyr arweiniol yn nodi canlyniadau'r unigolyn ac yn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Gwnaed atgyfeiriad diweddar ar gyfer person oedrannus a oedd yn ddioddefwr trais domestig risg uchel, a oedd â diagnosis o ddementia ac anghenion iechyd ychwanegol. Roedd angen ymateb brys, amlasiantaethol i'w diogelu rhag niwed pellach.

O ganlyniad i drafodaethau gan gynnwys yr Heddlu, eiriolwr trais domestig, gweithiwr cymdeithasol a chydlynnydd arweiniol, cafodd y person ei dderbyn i'r ysbyty fel derbyniad cymdeithasol. Cyflwynwyd gair cod i sicrhau mai dim ond pobl ddiogel oedd yn gallu ymweld. Roedd y cynllun tymor byr hwn yn sicrhau eu diogelwch tra oedd cynlluniau tymor hwy'n cael eu gwneud, gan ystyried eu canlyniadau, eu barn a'u dymuniadau.

Lles:

Blaenoriaethau Allweddol 2025-26

AR DRAWS GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cefnogi gweithgareddau Super Agers mewn lleoliadau cymunedol lleol i wella lles corfforol a meddyliol.

Datblygu cynnig cost isel ar gyfer y grŵp 60+ oed sy'n gysylltiedig â Menter Nofio Am Ddim Llywodraeth Cymru.

Darparu llwybrau cyflyrau cronig fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff ac mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd.

Darparu mynediad â chymorth i weithgareddau hamdden ar gyfer grwpiau poblogaeth wedi'u targedu trwy ddarpariaeth aelodaeth, gan ddefnyddio cymorth allanol.

Monitro presenoldeb ac ymgysylltu yng nghyfarfodydd y bwrdd diogelu corfforaethol i sicrhau bod y Cyngor yn amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Gweithredu'r Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol, gan gynnwys hyfforddiant amlasiantaethol a fforymau dysgu a rennir.

Adolygu ein safonau ar gyfer cofnodi'r gwaith rydyn ni'n ei wneud a'r canllawiau cysylltiedig.

Sicrhau bod ein gweithgarwch sicrhau ansawdd yn ystyried safonau ein hasesiadau a'n cynlluniau ac yn ein helpu i rannu arfer da.

Hyrwyddo ymgysylltu plant mewn cyfarfodydd gan gynnwys cynadledau achos amddiffyn plant a chynhyrchu cofnodion sy'n gyson â gweithdrefnau cenedlaethol.

GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

Sicrhau bod dysgu o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (ADUSau) a dadansoddiad manwl arall yn cael ei ymgorffori'n systematig trwy ddysgu, hyfforddiant a datblygu a gwaith sicrhau ansawdd ac adolygu dilynol gyda phartneriaid.

Arolygiadau ac Adolygiadau

Bob blwyddyn mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cynnal arolygiadau a/neu wiriadau gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diogelu'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u lles.

Yn ystod 2024-25 cwblhaodd AGC 10 arolygiad ar draws ein gwasanaethau gofal preswyl a gofal uniongyrchol rheoledig.

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Cwblhawyd tri arolygiad mewn perthynas â sefydliadau preswyl mewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Tŷ Harwood, Gwasanaeth Asesu ac Argyfwng Golygfa'r Dolydd (Meadows View) a Sunnybank.

Roedd yr holl arolygiadau'n gadarnhaol gyda chanfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at nifer o gryfderau, gan gynnwys:

- tystiolaeth gref o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu cynlluniau gofal i adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r rhai sy'n gysylltiedig
- mae plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau a chael rheolaeth yn eu bywydau pob dydd
- mae trefniadau llywodraethu da ar waith ar gyfer goruchwyllo rheolwyr.

Cyhoeddwyd un hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â Sunnybank a 6 maes i'w wella: 2 ar gyfer Tŷ Harwood a 4 ar gyfer Golygfa'r Dolydd.

Roedd yr hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd i Sunnybank yn ymwneud â chynllunio ar gyfer pontio pan oedd pobl ifanc yn symud. Ers hynny mae AGC wedi cadarnhau eu bod yn fodlon

ar ein hymateb a'r camau a gymerwyd.

Roedd y prif feysydd i'w gwella yn cynnwys y canlynol:

- darparu gofal a chymorth fel yr amlinellir mewn cynlluniau personol
- cryfhau'r broses ar gyfer cwblhau gwiriadau asiantaethau
- sicrhau bod safleoedd ac offer yn addas i anghenion pob plentyn a pherson ifanc.

Cyflwynwyd [adroddiad](#) llawn am gwmpas a chanfyddiadau'r arolygiadau hyn gerbron Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet ar 10 Ionawr 2025. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno i Bwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet, cwblhawyd dau arolygiad arall yn Bakers Way a Hillsboro. Roedd yr arolygiadau hyn hefyd yn gadarnhaol heb unrhyw feysydd i'w gwella wedi'u nodi.

Gofal Cymdeithasol Oedolion

Cwblhawyd pum arolygiad mewn perthynas â sefydliadau preswyl ar draws Gofal Cymdeithasol i Oedolion: Cartref Preswyl Tŷ Cwm Ogwr, Sefydliad Gofal Ychwanegol Tŷ Llwynderw, Gwasanaeth Arhosiad Byr Breakaway a Sefydliad Gofal Ychwanegol Tŷ Ynysawdre. Cafodd ein Gwasanaeth Gofal Cartref mewnol ei arolygu hefyd.

Unwaith eto, roedd yr arolygiadau o'n gwasanaethau preswyl yn gadarnhaol gyda chanfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at nifer o gryfderau gan gynnwys y canlynol:

- mae pobl yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u trefniadau dyddiol
- mae gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn amgylchedd sy'n gwella lles pobl
- mae safon dda o hylendid a rheoli heintiau yn cael ei chynnal i leihau'r risgiau o groes-heintio
- mae archwiliadau a gwiriadau ansawdd rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion pobl.

Cryfderau allweddol a amlygwyd yn yr arolygiad o'n gwasanaeth gofal cartref mewnol:

- mae gan bobl lais ac maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn rhan o bethau ac maen nhw'n hapus gyda'r gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn

- mae pobl yn deall pa gyfleoedd gofal a chymorth sydd ar gael iddynt
- mae diwylliant cadarnhaol wedi'i ymgorffori ar draws y gwasanaethau.

Mae'n gadarnhaol adrodd, er na roddwyd unrhyw hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth ar waith ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a arolygwyd, y nodwyd 1 maes i'w wella: cynlluniau personol i adlewyrchu anghenion gofal a chymorth yn gywir.

Cyflwynwyd [addroddiad](#) llawn am gwmpas a chanfyddiadau'r arolygiadau hyn gerbron y Cabinet ar 8 Ebrill 2024.

Mae'r holl feysydd i'w gwella yn cael eu monitro bob tri mis trwy ein Traciwr Rheoleiddiol (yn rhan o'n gwaith monitro perfformiad corfforaethol bob tri mis sy'n bwydo i mewn i'n Hunanasesiad Corfforaethol blynyddol) gan adrodd am gamau gweithredu i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor. Mae dysgu o arolygiadau wedi'i ymgorffori mewn camau gweithredu a blaenoriaethau allweddol i gefnogi gwelliant parhaus.



Cwynion a Sylwadau

Mae cwynion am wasanaethau cymdeithasol yn cael eu trin yn unol â **Rheoliadau Gweithdrefn Cwyno Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014**, a chanllawiau Llywodraeth Cymru, “**Canllawiau ar Ddelio â Chwynion a Sylwadau mewn Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol.**”

Mae'r fframweithiau hyn yn galluogi pobl i godi pryderon am y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn gan sicrhau eu bod yn cael sylw yn deg ac yn brydlon.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae nifer cyffredinol y cwynion a dderbyniwyd wedi gostwng 12%. Roedd thema'r cwynion yn amrywio a'r meysydd yr adroddwyd amdanynt fwyaf oedd diffyg cymorth, ymddygiad staff a diffyg cyfathrebu a oedd yn cyfrif

am 48% o'r holl gwynion a dderbyniwyd.

Ein nod, lle bo hynny'n bosibl, yw darparu datrysiad lleol da i'r bobl, eu teuluoedd a'u gofalmwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac mae 95% o'r cwynion a dderbyniwyd wedi'u datrys naill ai'n anffurfiol y tu allan i'r broses statudol neu ar gam un (cam anffurfiol) o'r broses statudol.

Ymchwiliwyd i'r 5% sy'n weddill o'r cwynion trwy'r weithdrefn statudol cam dau (ffurfiol). Mae hyn yn cynnwys ymchwilydd annibynnol yn edrych ar y gŵyn ac yn cwblhau adroddiad am eu canfyddiadau a allai arwain at argymhellion ar gyfer ffyrdd y gallwn wella.

Mae proses ar waith i fonitro cwynion yn rheolaidd, nid yn unig i nodi meysydd arfer da ond i sicrhau bod yr argymhellion a'r canlyniadau dysgu o gam dau yn cael eu gweithredu. Mewn ymateb i gwynion cam dau a dderbyniwyd, dyma grynodedb o'r canlyniadau dysgu a weithredwyd:

MAES GWASANAETH	DEILLIANT DYSGU:
Ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol	- Mae'r Tîm Canmoliaeth a Datrys Cwynion wedi cryfhau gweithdrefnau cydsynio, hyfforddiant ac arweiniad staff, a chyfathrebu ag achwynwyr yn ystod absenoldeb staff. - Mae cyfathrebu, tryloywder a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael eu cryfhau i sicrhau bod dysgu o gwynion yn llywio ymarfer.
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	- Mae ymgynghoriadau achos ar gyfer canllawiau rheoli cynnar ac ymyrraeth wedi cael eu cynnal. - Mae'r Tîm Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal wedi gwella'u prosesau o gofnodi canlyniadau Adran 47. - Mae'r Tîm Pontio Plant ac Anabledd wedi cryfhau asesiadau, cyfathrebu ac ymgysylltu â theuluoedd. - Mae'r Tîmau Maethu a Diogelu wedi gwella hyfforddiant, cadw cofnodion a goruchwylio honiadau yn erbyn gofalmwyr maeth.

Gofal Cymdeithasol i Oedolion

- Wedi adolygu gwybodaeth a roddwyd i deuluoedd am rôl gweithwyr cymdeithasol i sicrhau ei bod yn glir ac yn hawdd ei deall.
- Mae'r Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol wedi gwella prydlondeb gwneud penderfyniadau, cynnwys teuluoedd a dyrannu achosion.

Corff Llais y Dinesydd:

Mae Corff Llais y Dinesydd yn hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau. Mae'n helpu i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru o ansawdd uchel ac yn ymatebol i anghenion pobl.

Mae'r corff yn gweithredu o dan yr enw "Llais" a dechreuodd weithredu ar 1 Ebrill 2023. Mae Llais yn gorff annibynnol sy'n darparu cymorth Eiriolaeth am ddim i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno codi pryder, ac mae'n cynnwys rhoi cyngor a gwybodaeth am y camau mwyaf priodol i'w cymryd.

Yn ystod 2024-25, cawson ni 5 cwyn gan eiriolwyr Llais: 4 yn ymwneud â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac 1 â Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae gwybodaeth fanylach am gwynion a sylwadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i'w gweld yn ["Adroddiad Blynyddol Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol."](#)

Other Sources of Information

CYNGOR PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflawni Gyda'n Gilydd - Ein Cynllun Corfforaethol 2023-28
| CBSP

Cyfansoddiad y Cyngor

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

MASH (Hyb Ddiogelu Amlasiantaethol) Pen-y-bont ar Ogwr

Hunanasesiad Corfforaethol

Adroddiadau Archwilio Cymru

PARTNERIAID ALLWEDDOL/CYMORTH EIRIOLAETH

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen

Halo Leisure

BAVO Pen-y-bont ar Ogwr

Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr

Arolygiaeth Gofal Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru

TuVida Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasanaeth Lles Gofalwyr

Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr

Llais Cymru

DEDDFWRIAETH/CANLLAWIAU ALLWEDDOL

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
2014 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Dyfodol (Cymru) 2015

Mwy na Geiriau: Cynllun iaith Gymraeg mewn iechyd a
gofal cymdeithasol

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion Gwasanaethau
Cymdeithasol (Cymru) 2014

Canllawiau ar Ddelio â Chwynion a Sylwadau mewn
Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

5

Rhestr Termau

Eiriolaeth Mae eiriolwyr mewn cymdeithasol gofal yn annibynnol ar yr awdurdod lleol (cyngor lleol) a'r GIG. Maen nhw wedi'u hyfforddi i helpu pobl i ddeall eu hawliau a mynegi eu barn a'u dymuniadau.

Asesiad Cyfarfod/trafodaeth i'n helpu i benderfynu sut mae rhywun yn ymdopi a pha ofal a chymorth y gallai fod eu hangen arnynt.

Plant â Phrofiad o Fod mewn Gofal Mae profiad o fod mewn gofal yn derm ymarbêl sy'n gallu golygu plant/pobl ifanc sy'n:

- Derbyn gofal gartref trwy Orchymyn Gofal
- Derbyn gofal oddi cartref mewn tŷ preswyl i blant, mewn lleoliad maeth neu mewn lleoliad teuluol (sy'n derbyn gofal neu heb dderbyn gofal)
- Wedi derbyn gofal yn flaenorol, lle ar ryw adeg yn eu bywydau maen nhw wedi cael unrhyw un o'r profiadau uchod.

Efallai nad oedd y plentyn/person ifanc erioed wedi derbyn gofal ffurfiol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) AGC yw rheoleiddiwr darparwyr gofal cymdeithasol. Mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella safon a diogelwch gwasanaethau ar gyfer lles pobl yng Nghymru.

Pobl sy'n Gadael Gofal Yng Nghymru, mae pobl sy'n gadael gofal yn unigolion sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers bod yn 14 oed ac wedi gadael gofal ar eu pen-blwydd yn 16 oed neu ar ôl hyn. Bwriedir i'r cymorth a ddarperir i bobl sy'n gadael gofal fod yn gyfwerth â'r hyn y mae'n rhesymol i blentyn nad yw wedi derbyn gofal ddisgwyl ei dderbyn gan eu rhieni.

Cynllun Gofal a Chymorth

Mae cynllun gofal a chymorth yn ddogfen sy'n nodi'r hyn sydd wedi'i drafod yn ystod asesiad anghenion gofal cymdeithasol a beth fydd yn digwydd o ganlyniad. Mae'n gynllun y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei baratoi a'i gynnal o dan adran 54 (1) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Taliadau Uniongyrchol Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu rhoi i unigolion i'w galluogi i dalu am eu gofal eu hunain. Maen nhw'n ffordd y gall awdurdodau lleol helpu i ddiwallu angen cymwys unigolyn am ofal a chymorth, neu angen gofalwr am gymorth. Maen nhw'n ffordd i bobl drefnu eu gofal a'u cymorth eu hunain.

Trefniadau Diogelu Rhag Colli

Rhyddid Mae Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn weithdrefn gyfreithiol yn y DU sydd wedi'i dylunio i amddiffyn pobl agored i niwed mewn lleoliadau gofal. Mae'n berthnasol i oedolion sydd heb y gallu meddyliol i roi caniatâd i'w trefniadau gofal ac sydd angen cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gallu cydsynio i'w gofal yn cael eu diogelu pan fydd eu trefniadau yn eu hamddifadu o'u rhyddid. Bydd yn cael ei ddisodli gan Drefniadau Amddiffyn Rhyddid (TARh) yn y dyfodol."

Gofal Cartref/Gwasanaeth Cymorth Cartref/Gofal yn y Cartref

Mae gofal cartref, a elwir hefyd yn "gofal yn y cartref", yn cyfeirio at ystod eang o wasanaethau gofal a ddarperir yng nghartref person ei hun. Mae'n gallu cynnwys cymorth gyda bywyd o ddydd i ddydd a materion gofal iechyd penodol i'r henoed.

Gofal Ychwanegol Y ddarpariaeth o becyn gofal cartref i unigolyn sy'n byw â chymorth neu mewn llety â chymorth.

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

(GCCh) Cyfeirio at gysylltiadau ac atgyfeiriadau – caniatâd a lefel yr wybodaeth a gofnodwyd – dolen i asesiad cymesur.

Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA)

Mae SAA yn rhywun sy'n gwneud yn siŵr bod plant â phrofiad o fod mewn gofal yn derbyn gofal yn briodol a bod eu cynlluniau gofal a chymorth yn addas iddyn nhw.

Mwy Na Geiriau Mae Mwy na geiriau yn strategaeth a chynllun cyflawn i geisio gwella ansawdd gofal i unigolion sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog.

Atal ac Ymyrryd yn Gynnar Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn fathau o gymorth sy'n ceisio gwella canlyniadau i bobl neu atal angen neu risg rhag

gwaethygu. Cyfeirir atynt weithiau hefyd fel cymorth cynnar neu wasanaethau ataliol.

Ailalluogi/Adsefydlu/Gofal interim

Mae'r gofal tymor byr hwn yn cael ei alw weithiau'n ofal canolraddol, neu'n ôl-ofal. Mae ailalluogi'n fath o ofal sy'n helpu pobl i ailddysgu sut i wneud gweithgareddau dyddiol, megis coginio prydau bwyd a golchi. Mae'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol gyda'r nod o liniaru'r angen am ofal a chymorth hirdymor.

Preswlydd/Dinesydd Person sy'n byw fel arfer o fewn ffin yr awdurdod lleol.

Aduno Mae aduno yn cyfeirio at sefyllfa lle bydd plentyn neu berson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn dychwelyd adref yn ddiogel i'w deulu. Ni fydd aduno'n digwydd oni bai bod y cam wedi cael ei asesu'n ddiogel a'r canlyniad gorau i'r plentyn neu'r person ifanc.

Cartref Gofal Preswyl/Cartref Nyrsio

Mae cartref gofal preswyl yn darparu llety a gofal a chymorth personol 24 awr i'r bobl hŷn ac eraill sy'n ei chael hi'n anodd hŷndopi â bywyd pob dydd gartref. Mae cartref gofal preswyl a chartref nyrsio yn darparu gofal a chymorth 24 awr y dydd, ond y prif wahaniaeth yw bod cartref nyrsio yn gallu darparu lefel uwch o ofal. Mae gan gartrefi nyrsio nyrsys cymwys ar y safle ddydd a nos i ddarparu gofal meddygol yn ôl yr angen, tra bod cartrefi preswyl yn helpu pobl gyda gofal personol ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.

Diogelu/ Amddiffyn Oedolion /

Amddiffyn Plant Mae diogelu, sydd weithiau'n cael ei alw'n amddiffyn oedolion neu amddiffyn plant, yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a dysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Sefydliad Diogel Mae sefydliad diogel yn gyfleuster lle mae unigolion (oedolion neu blant a phobl ifanc) yn gallu cael eu lletya neu eu cadw oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol. Mae enghreifftiau o sefydliadau diogel yn cynnwys carchardai, llety cadw pobl ifanc neu safle cymeradwy. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth unigolion o fewn sefydliad diogel.

Cynllun Cysylltu Bywydau/Lleoli

Oedolion Mae Cynlluniau Cysylltu Bywydau, sy'n cael eu galw hefyd yn lleoliadau oedolion, yn a ffordd sy'n seiliedig ar y teulu o gefnogi anghenion tai person sy'n agored i niwed. Mae'r

math hwn o lety cefnogol yn gallu bod y garreg gamu ddelfrydol ar y ffordd i fyw'n annibynnol. Cyfeirir at y trefniant rhannu hwn yn aml fel 'cysylltu bywydau'.

Llety Gwarchod Math o lety yw hwn i bobl hŷn neu sy'n agored i niwed sydd eisiau byw yn annibynnol ond gyda rhywfaint o gymorth gerllaw. Fel arfer mae'n cynnwys fflat breifat, warden neu staff cymorth, a chymorth brys os oes angen.

Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)

GCC yw rheoleidiwr y gweithlu. Fel rhan o hyn maen nhw'n cofrestru ac yn gosod safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth ac yn datblygu'r gweithlu. Mae gan GCC glych gwaith gwella hefyd, lle byddan nhw'n rhannu arfer da, yn gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil ac yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau eraill.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfraith sydd â'r nod o wella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac o drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Byw â Chymorth/Llety â Chymorth

Mae llety byw â chymorth yn fath o lety sy'n darparu gofal, cymorth neu oruchwyliath bersonol i helpu pobl i fyw'n annibynnol. Mae'r gofal a'r cymorth ar wahân i'r contract llety. Mae'r llety'n gallu bod yn llety a rennir neu'n llety sengl, gan ddibynnu ar anghenion a dewisiadau'r preswylwyr.

Teleofal Gwasanaeth sy'n defnyddio technoleg i helpu pobl i fyw'n annibynnol ac aros yn ddiogel.

Y Trydydd Sector Mae'r trydydd sector yn cyfeirio at elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau dielw sy'n helpu pobl ac yn gwella cymunedau.

Pontio Y cyfnod o newid/symud o gael cymorth gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd i gael cymorth gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion.

Gofalwr Di-dâl Mae gofalwr di-dâl yn rhywun sy'n darparu gofal a chymorth i aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gymdogion y mae anabledd, salwch corfforol neu feddyliol, eiddilwch neu gamddefnyddio sylweddau'n effeithio arnynt. Nid oes rhaid i'r gofalwr fod yn byw gyda'r person y mae'n gofalu amdano.

Gofalwr Ifanc Mae gofalwr ifanc yn gofalwr di-dâl hyd at 18 oed. Efallai eu bod yn darparu gofal a chymorth i rieni, brawd, chwaer neu aelodau eraill o'r teulu.

Cyngor Bwrdeistref Sirol

